# Adroddiad Blynyddol y Cyngor 2023/24

Gorffennaf 2024

# The Council's Annual Report 2023/24

July 2024



# ATODIADAU

# APPENDICES

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Sut cafodd ein Hamcanion Llesiant eu clustnodi

Pan oedd yn bryd adnewyddu ein Strategaeth Gorfforaethol 2018-23 'Mae Bywyd yno i'w Fyw, dewch inni ddechrau, byw a heneiddio'n dda mewn amgylchedd iachus, diogel a ffyniannus'. Roedd effaith Covid-19, yr argyfwng Hinsawdd, yr argyfwng costau byw ac anghenion Trawsnewid oll wedi creu'r cyd-destun ar gyfer ymagwedd newydd. Roedd Etholiadau Llywodraeth Leol Mai 2022 yn gyfle da i adolygu a gloywi ein Hamcanion Llesiant.

Roedd ein Strategaeth Gorfforaethol flaenorol yn cynnwys 13 Amcan Llesiant a'r teimlad oedd bod angen casgliad mwy cryno o flaenoriaethau.
Dangosodd sesiynau Cynllunio Busnes Ymgysylltu a Sicrwydd ym misoedd Tachwedd-Rhagfyr 2021 gyda Thimau Rheoli Adrannol fod angen newid i ffordd fwy thematig o weithio.

**Cyfeiriad democrataidd**
Ym mis Mai 2022 etholwyd gweinyddiaeth newydd, ac amlinellodd y Cabinet Ddatganiad Gweledigaeth y Cabinet 2022-2027

**Dull partneriaeth a dadansoddi data/asesu anghenion Sir Gaerfyrddin**. Rydym wedi paratoi cynllun cydweithredol gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus yn Sir Gaerfyrddin drwy Gynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2023-2028 y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Roedd yr Asesiad Llesiant yn cael ei arwain gan ymgysylltu
Asesiad Llesiant Lleol Sir Gaerfyrddin

- 609 o ymatebion
- Amrywiaeth o sesiynau ymgysylltu â sefydliadau a grwpiau i sicrhau cyfranogiad gan gynrychiolaeth amrywiol o'r boblogaeth leol

Gwnaethom ystyried Amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru yn ogystal ag amcanion partneriaid eraill.

Ymgynghori ynghylch gweithgareddau gyda;

- Preswylwyr,
- Staff,
- Busnesau, ac
- Undebau Llafur

Ymgysylltu ag aelodau etholedig ynghylch y Strategaeth Gorfforaethol Ddrafft a'r Amcanion Llesiant drwy sesiynau ymsefydlu'r aelodau
Ymgysylltu â staff drwy arolwg staff

Adroddiad Blynyddol a Hunanasesiad 2021-22 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gosod y cyd-destun

Gweithdy i bob Cynghorydd Cabinet/Craffu ym mis Ionawr 2023
Chwefror 2023 - Cabinet a'r Cyngor Sir

Cafodd y Cynllun Busnes ei ailgynllunio i gyd-fynd yn llawn ag Amcanion Llesiant.

Strategaeth Gorfforaethol Newydd ac Amcanion Llesiant

Darparu'r Strategaeth Gorfforaethol a amlinellwyd yn y cynlluniau busnes, dull a ail-ddyluniwyd i gyd-fynd â'r Amcanion Llesiant newydd – dull 2 gam:

1. **Nodi Gweithredoedd, Mesurau a Risgiau**
2. **Hunanasesiad o berfformiad**

Bu i gyflwyno'r Asesiad Effaith Integredig ar gyfer holl gynigion y Cabinet/Cyngor Llawn o fis Ebrill 2023 sicrhau bod y 5 ffordd o weithio (a gofynion asesu effaith eraill) yn rhan annatod o waith y Cyngor.

## Cymhwyso'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r 5 ffordd o weithio

**Yr egwyddor datblygu cynaliadwy** yw

> *'... bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain."*

**5 ffordd o weithio**

| *Tymor Hir* | *Atal* | *Integreiddio* | *Cydweithio* | *Cynnwys* |
|---|---|---|---|---|

Hyrwyddo'r Ddeddf Llesiant gan nodi'r egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r 5 Ffordd o Weithio trwy weithdai hyfforddi, seminarau a hyrwyddo

Roedd ystyried y 7 Nod Cenedlaethol a sut y gall y Cyngor wneud y mwyaf o'i gyfraniad i'r nodau hynny yn ganolog i ddatblygiad y strategaeth gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant newydd.

Cafodd y Cynllun Busnes ei ailgynllunio i gyd-fynd â'r Amcanion Llesiant newydd – dull 2 gam:
1. Nodi Gweithredoedd, Mesurau a Risgiau
2. Hunanasesiad o berfformiad

***Tymor Hir***
Datganiad o Weledigaeth y Cabinet a Strategaeth Gorfforaethol


***Atal***
Mae hon yn egwyddor arweiniol ar draws ein blaenoriaethau ond yn enwedig fel a ganlyn;
Amcan Llesiant 1 - atal ac ymyrraeth gynnar.
Amcan Llesiant 2 - Trechu Tlodi
Amcan Llesiant 3 - datgarboneiddio/Argyfwng Hinsawdd
Amcan Llesiant 4 - Mae lleihau galw yn sgil methiant yn ganolog i drawsnewid.

***Integreiddio***
Pwrpas y Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant newydd yw galluogi mwy o integreiddio ar draws gwasanaethau'r Cyngor gan ganolbwyntio ar Flaenoriaethau Thematig a Gwasanaeth allweddol.

***Cydweithio***
Mae pob Amcan Llesiant yn cynnwys elfennau o weithio gyda phartneriaid i gyflawni nodau penodol o fewn pob amcan

***Cynnwys***
Nifer o randdeiliaid yn ymwneud â datblygu'r Amcanion Llesiant.

## Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol




| Amcanion Llesiant | 7 Nod Llesiant Cenedlaethol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Mwy cyfartal | Iachach | Cydnerthedd | Llewyrch | Cyfrifoldeb Byd-eang | Diwylliant Bywiog a'r Iaith Gymraeg | Cymunedau Cydlynus |
| 1. Galluogi ein plant a'n pobl ifanc i gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. (Dechrau'n Dda) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 2. Galluogi ein trigolion i fyw a heneiddio'n dda. (Byw a heneiddio'n dda) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 3. Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus. (Cymunedau Ffyniannus) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| 4. Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon. (Ein Cyngor) | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

# Hunanasesiad Perfformiad 2023/24

## Ein Dull Ni o Weithredu

O dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ddyletswydd arnom i barhau i adolygu i ba raddau yr ydym yn cyflawni'r 'gofynion perfformiad' isod:

- I ba raddau yr ydym yn arfer ein swyddogaethau'n effeithiol;
- I ba raddau yr ydym yn defnyddio adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol; ac
- I ba raddau yr ydym yn llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Yn seiliedig ar y gofynion hyn, mae ein hunanasesiad mewn tair rhan, ac mae pob un yn cynnwys cymysgedd o elfennau meintiol ac ansoddol. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn casglu gwybodaeth rifiadol gymharol drwy'r elfennau a sgoriwyd, sydd wedyn yn cael ei chydbwyso drwy'r dystiolaeth fanylach a gasglwyd drwy'r elfennau ansoddol.

Mae amcanion llesiant y Cyngor a'r dyletswyddau a osodir arnom ni drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn sylfaen i bopeth a wnawn fel sefydliad.

Felly, mae **Rhan 1** o'n hunanasesiad yn canolbwyntio ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy a ddangosir trwy'r pum ffordd o weithio. Mae'n rhaid i ni weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Gofynnwyd i feysydd gwasanaeth asesu pa mor dda roeddent yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar sail sgôr o 1-5. A bod 1 yn wan a 5 yn gryf.

Mae **Rhan 2** yn canolbwyntio ar y graddau yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau yn ddarbodus, effeithlon ac effeithiol, sy'n cael ei roi yng nghyd-destun y saith maes corfforaethol a nodwyd yn y Deddfau.

Mae matricsau sgorio manwl hefyd wedi'u cynnwys ar gyfer cynllunio'r gweithlu, aeddfedrwydd digidol ac aeddfedrwydd data. Nid yw'n ofyniad uniongyrchol ein bod yn canolbwyntio ar yr elfennau hyn, ond mae'r broses hunanasesu yn amser priodol i gasglu'r wybodaeth hon ar lefel sy'n seiliedig ar wasanaeth i'r sefydliad cyfan.

Mae **Rhan 3** yn canolbwyntio ar drefniadau llywodraethu ac i ba raddau y mae'r trefniadau hyn yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r ddau ofyniad a gwmpesir yn rhannau 1 a 2.

Mae pob un o is-adrannau gwasanaeth y Cyngor wedi ymgymryd â'u hunanasesiad eu hunain, ac mae'r rhain wedi'u cyd-drefnu gan yr adran i baratoi'r trosolwg adrannol a ddefnyddiwyd yn eu tro i baratoi'r trosolwg corfforaethol.

## Trosolwg Corfforaethol

Mae meysydd gwasanaeth y Cyngor yn cydweithio ac yn integreiddio i gyflawni ein Strategaeth Gorfforaethol ac rydym yn monitro'r camau gweithredu a'r mesurau a osodwyd. Gellir monitro'r cynnydd ar y camau a'r mesurau hyn fesul Portffolios Cabinet, Pwyllgorau Craffu, Datganiad Gweledigaeth y Cabinet, Amcan Llesiant a fesul Adran a Gwasanaeth. Cyflawnwyd **74%** o'n camau gweithredu a'n targedau am y flwyddyn.

| Adran | Swyddogaeth | Ar y Targed | |
|---|---|---|---|
| | | camau gweithredu a mesurau | % |
| **Prif Weithredwr** | Rheoli Pobl<br>Adfywio, Polisi a Digidol<br>Gweinyddiaeth a'r Gyfraith<br>Marchnata a'r Cyfryngau<br>Etholiadol a Chofrestru Sifil<br>Cymorth Busnes | **108** | **83%** |
| **Addysg a Phlant** | Gwasanaethau Plant<br>Strategaeth a Chymorth Dysgwr<br>Addysg a Chynhwysiant<br>Mynediad i Addysg | **38** | **81%** |
| **Cymunedau** | Gofal Cymdeithasol i Oedolion<br>Gwasanaethau Integredig<br>Tai a Diogelu'r Cyhoedd<br>Gwasanaethau Hamdden<br>Cymorth Busnes a Chomisiynu<br>Eiddo Tai a Phrosiectau Strategol | **49** | **69%** |
| **Lle a Seilwaith** | Gwastraff a'r Amgylchedd<br>Priffyrdd a Thrafnidiaeth<br>Gwella Gwasanaethau a Thrawsnewid<br>Lle a Chynaliadwyedd<br>Dylunio a Chynnal a Chadw Eiddo | **76** | **61%** |
| **Gwasanaethau Corfforaethol** | Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol<br>Gwasanaethau Ariannol | **39** | **87%** |

Perfformiad cyffredinol ar gyflawni'r camau gweithredu a'r mesurau a gafodd eu halinio i'r Strategaeth Gorfforaethol:

| 2023/24 | Ar y Targed | Ddim ar y Targed |
|---|---|---|
| **Nifer y camau gweithredu a'r targedau a bennir** | **310** | **102** |
| **%** | **74%** | **24%** |

Heb fod ar gael = 2%

Perfformiodd y swyddogaethau cyffredinol yn effeithiol gyda 74% o'r camau a'r targedau a gynlluniwyd wedi'u cyflawni. Esboniwyd unrhyw feysydd oedd oddi ar y targed a chamau unioni.

## Themâu a Chanfyddiadau Trosfwaol

Yn seiliedig ar ffurflenni unigol yr is-adrannau a'r trosolygon adrannol a amlinellir yn yr adroddiad hwn, nodwyd y themâu a'r canfyddiadau cyffredinol canlynol.

Sgôr gyffredinol i'r Cyngor yn seiliedig ar sgoriau ymarferoldeb adrannol – **4.**

### Rhan 1 - Cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy – Y Pum Ffordd o Weithio

| Pum Ffordd o Weithio | Y Sgôr |
|---|---|
| Integreiddio | 4 |
| Ffocws hirdymor | 4 |
| Cynnwys | 3.9 |
| Cydweithio | 4.3 |
| Atal | 3.9 |

| **Integreiddio** |
|---|
| Mae strategaethau a chynlluniau lefel gwasanaeth a lefel adrannol yn cyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol. Fodd bynnag, mae cyfleoedd pellach i gryfhau integreiddio camau gweithredu gyda phartneriaid i sicrhau ystyriaeth o'r nodau llesiant cenedlaethol ac amcanion sefydliadau eraill. |
| Mae integreiddio da ar draws y sefydliad, ond mae cyfleoedd pellach i atgyfnerthu hyn wrth fynd i'r afael â heriau sylweddol yn y boblogaeth gyfan. |
| **Tymor Hir** |
| Mae cynlluniau a strategaethau yn rhai tymor canolig (yn bennaf), sy'n cyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol. Fodd bynnag, nid oes gweledigaeth hirdymor sy'n nodi'n glir y dyfodol hirdymor a ddymunir yn bodoli'n ffurfiol ar gyfer y sefydliad (neu'r adrannau sydd ynddo), sy'n cyflwyno cyfle. |
| Defnyddir data i lywio monitro perfformiad, fodd bynnag, mae lle pellach i nodi a defnyddio data tueddiadau'r dyfodol a sganio gorwelion i lywio ein dealltwriaeth o lwybrau yn y dyfodol sy'n caniatáu ar gyfer cynllunio gwell. |
| **Cynnwys** |
| Mae'r sefydliad yn ymgynghori'n rheolaidd â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae hyn yn digwydd ôl yr angen yn hytrach na bod yn sgwrs ddwyffordd barhaus. Mae cyfleoedd i ymchwilio i ddulliau o gefnogi hyn. |
| Er bo'r graddau y mae safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei ystyried ar lefelau cynllunio a darparu yn gwella, mae angen gwella'r graddau y gwelir a defnyddir y wybodaeth hon yn gorfforaethol, gan sicrhau bod y wybodaeth hon yn elfen bwysig o fonitro perfformiad. |
| Mae cyfleoedd i atgyfnerthu ymhellach y ffordd rydym yn cyfathrebu effaith cynnwys preswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn ein prosesau gwneud penderfyniadau. |
| **Cydweithio** |
| Mae cydweithio ar draws y sefydliad yn dda ond mae posibilrwydd nodi ymhellach sut y gall partneriaid gefnogi ein hamcanion llesiant a sut y gallwn gefnogi eu hamcanion llesiant nhw. |
| **Atal** |
| Mae'r heriau yr ydym yn ceisio eu hatal yn gysylltiedig â thueddiadau tymor hir ac fe'u cynhwysir wrth wraidd y Strategaeth Gorfforaethol. Wedi dweud hynny, bydd cryfhau ein dull o sganio gorwelion yn cefnogi darparu gwasanaethau ataliol. |
| Mae angen sicrhau bod y Strategaeth Atal, sy'n cael ei harwain gan yr Adran Cymunedau, yn cael ei hymestyn ac yn datblygu i fod yn ddull poblogaeth gyfan o atal sy'n berthnasol ar draws y Cyngor. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau'r galw am ymyrraeth statudol ac yn mwyhau potensial unigolion. |

## Rhan 2 - A yw'r Sefydliad yn defnyddio ei Adnoddau mewn modd Darbodus, Effeithlon ac Effeithiol?

| Meysydd Corfforaethol | Sgôr Gyffredinol | Prif Ganfyddiadau |
|---|---|---|
| **Cynllunio Corfforaethol** | 4 | Mae angen llai o frysio o ran y broses cynllunio busnes flynyddol ac ymgysylltu'n ehangach ar draws ac o fewn adrannau i sicrhau mwy o integreiddio. |
| | | Er bod aliniad cryf i'r Strategaeth Gorfforaethol, mae cyfleoedd pellach i integreiddio ac ystyried ymhellach y 'canlyniadau yr ydym yn gobeithio eu cyflawni' wrth gynllunio corfforaethol. |
| | | Integreiddio blaenoriaethau corfforaethol ymhellach h.y. byddai Strategaeth Gorfforaethol, Datganiad Gweledigaeth y Cabinet ac ati yn caniatáu ar gyfer prosesau adrodd cynnydd mwy effeithlon. |
| **Cynllunio Ariannol** | 4 | Mae angen ymgysylltu cryfach gan adrannau o ran y broses o bennu cyllideb, yn ogystal â mwy o berchnogaeth o safbwynt monitro mewn rhai meysydd. |
| | | Mae'r her ariannol o ran llai o adnoddau yn lleihau'r gallu i wneud dewisiadau ariannol ataliol, ond mae cydnabyddiaeth bod hyn yn bwysig. |
| **Caffael** | 3.9 | Mae angen sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'r Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus newydd gyda ffocws penodol ar ystyried caffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. |
| | | Mae cydnabyddiaeth y gellir gwneud mwy i wella aliniad cyffredinol a rhannu gwybodaeth rhwng y swyddogaeth Caffael a rhai meysydd gwasanaeth. Y nod yw cryfhau cydweithio er mwyn sicrhau proses gaffael fwy strategol ac effeithlon sy'n ystyried cost a gwerth hirdymor. Mae'r gallu i ymgymryd â diwydrwydd dyladwy gofynnol (yn enwedig o ran rheoli contract) hefyd wedi'i nodi fel problem. |
| **Rheoli Risg** | 4.3 | Mewn rhai meysydd, byddai'n gall sicrhau cysondeb rhwng cofrestrau risg seiliedig ar brosiectau a chofrestrau risg ehangach ar lefel adrannol a chorfforaethol. |
| | | Byddai'n gall sicrhau bod Cynlluniau Parhad Busnes yn bodoli ar gyfer pob maes gwasanaeth a bod y rhain ar gael yn gorfforaethol yn ogystal ag yn lleol. |
| **Marchnata a'r Cyfryngau** | 3.7 | Mae cydnabyddiaeth y byddai gwaith pellach i helpu trigolion i ddeall ein sefyllfa ariannol bresennol a pham rydym yn defnyddio adnoddau fel yr ydym, yn fuddiol. |
| | | Mewn rhai meysydd gellir gwneud gwelliannau i brosesau, cyfathrebu a blaengynllunio a fyddai'n cefnogi gwell perthynas waith rhwng meysydd gwasanaeth penodol a'r swyddogaeth Marchnata a'r Cyfryngau. |
| | | Mae angen rheoli disgwyliad y cyhoedd o ran beth gallwn ei gynnig/wneud - nid yw adnoddau na chapasiti bob amser yn cyd-fynd â disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch beth gallwn ni ei gyflawni. Mae galw cynyddol a chymhlethdod ar gyfer gwasanaethau ar adeg o leihau adnoddau a chapasiti. |
| **Rheoli Asedau** | 4 | Mae cydnabyddiaeth bod angen gwella ymagwedd rhai meysydd penodol at reoli asedau, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor a diogelu asedau bregus. |
| **Rheoli Perfformiad** | 4.2 | Mae angen sicrhau bod dulliau monitro cynnydd ar gyfer cynlluniau a strategaethau seiliedig ar wasanaethau a lefel adrannol yn cyd-fynd yn agosach â dulliau corfforaethol. |
| | | Dylid mireinio'r broses hunanasesu ymhellach, gan sicrhau ei bod yn ymarfer ystyrlon ar gyfer meysydd gwasanaeth. |
| | | Dylai prosesau rheoli perfformiad lefel adrannol gyd-fynd â dulliau corfforaethol i sicrhau cysondeb a rhoi sicrwydd bod gwybodaeth a data perthnasol yn cael eu gweld a'u hystyried ar lefel gorfforaethol. |

## Cynllunio'r Gweithlu

| Elfen | Lefel | Sgôr Gyfartalog |
|---|---|---|
| **Elfennau allweddol Cynllunio'r Gweithlu** | Meddu ar fodelau/cynlluniau gweithlu ar gyfer rhai gwasanaethau o fewn is-adran | 3.2 |
| **Data** | Un ffynhonnell ddata ar gyfer data'r gweithlu o fewn yr is-adran. Safoni rolau a'r siartiau sefydliadol sydd ar gael | 3.2 |
| **Galw** | Model galw untro ar gyfer menter, gwasanaeth neu adran. | 3.2 |
| **Cyflenwad** | Crynhoad sylfaenol o newidynnau gweithlu mewnol. Rhagamcanion tymor byr (blynyddol). Tueddiadau cyffredinol argaeledd llafur a chostau wedi'u holrhain | 3.0 |
| **Dadansoddiad o Fylchau** | Dadansoddiad o ddiffyg / gwarged wedi'i yrru gan ddigwyddiadau Rhagweld yr angen am sgiliau allweddol. Rhywfaint o ddadansoddiad o drosiant. | 3.2 |
| **Cynllunio Camau Gweithredu** | Cynlluniau lefel gwasanaeth ar gyfer recriwtio/cadw. Dulliau gweithredu cyflym (h.y. staff asiantaeth). | 3.0 |
| **Llywodraethu** | Arweinwyr gwasanaeth mewn rhai meysydd gwasanaeth sydd â chyfrifoldebau Cynllunio'r Gweithlu. | 3.2 |
| **Sgôr Cynllunio'r Gweithlu Gyfartalog ar gyfer y Sefydliad:** | | **3.1** |

## Aeddfedrwydd Data

| Elfen | Lefel | Sgôr Gyfartalog |
|---|---|---|
| **Defnyddio data**<br>Pa mor dda ydych chi'n defnyddio data fel gwasanaeth? | Rydym yn monitro data'n rheolaidd ac mae'n cael ei ddefnyddio'n helaeth wrth gynllunio'n strategol a gwneud penderfyniadau. | 3.8 |
| **Ansawdd y data**<br>Beth yw ansawdd y data rydych chi'n ei gasglu/ei ddefnyddio fel gwasanaeth? | Mae data'n cael ei gasglu'n gyson, ac mae'n cael ei wirio'n rheolaidd er dilysrwydd a chywirdeb. | 3.8 |
| **Dadansoddi Data**<br>Pa mor dda ydych chi'n dadansoddi'r data rydych chi'n ei ddefnyddio fel gwasanaeth? | Rydym yn cynnal dadansoddiad disgrifiadol ac yn dechrau archwilio prosesau dadansoddol mwy datblygedig i ymchwilio ymhellach i'r data. Rydym yn dysgu creu ffyrdd mwy soffistigedig o gyflwyno data. | 3.4 |
| **Arweinyddiaeth a Diwylliant**<br>Sut mae data yn cael ei ystyried o fewn y gwasanaeth? | Rydym yn gwneud defnydd mwy o'r data, yn gofyn y cwestiynau iawn ac yn rhoi pwys ar ei werth. | 4.2 |
| **Sylfaen sgiliau a Chapasiti**<br>Beth yw sylfaen sgiliau a chapasiti'r gweithlu o fewn y gwasanaeth o ran data? | Adnodd penodol ar gyfer data o fewn y gwasanaeth gyda lefelau digonol o sgiliau a'r capasiti i wneud yr hyn sydd angen ei wneud ar y pryd. | 3.2 |
| **Offer a ddefnyddir**<br>Pa fath o offer ydych chi'n ei ddefnyddio i storio, dadansoddi a threfnu eich data? | Mae data'n cael ei storio'n llawn mewn systemau digidol diogel. Mae'r rhan fwyaf o'r offer yn gyfredol ac mae cynlluniau ar waith i gyfnewid yr offer gwaethaf. Mae rhywfaint o integreiddio yn dechrau digwydd rhwng systemau ac ar draws adrannau a meysydd gwasanaeth. Mae buddsoddiad yn cael ei wneud mewn offer newydd. | 3.6 |
| **Sgôr Aeddfedrwydd Data Gyfartalog ar gyfer y Sefydliad:** | | **3.7** |

## Aeddfedrwydd Digidol

| Elfen | Lefel | Sgôr Gyfartalog |
|---|---|---|
| **Trawsnewid Digidol a Newid (capasiti)** Yn eich barn chi, pa mor barod a chymwys yw eich gwasanaeth i ymateb i dueddiadau a heriau digidol newydd, ac i fabwysiadu ffyrdd newydd o weithio trwy dechnoleg. | Ystwythder cymedrol, gydag ymdrechion i addasu i dueddiadau newydd ond lle i wella o ran ymatebolrwydd. | 3.2 |
| **Arweinyddiaeth Ddigidol** Pa mor hyderus a galluog yn eich barn chi yw eich tîm(au) arweinyddiaeth wrth ddarparu arweinyddiaeth ddigidol pan fo angen, h.y. wrth ddylunio gwasanaethau, gweithredu newid ac ati. | Mae gan y tîm arweinyddiaeth rywfaint o ddealltwriaeth a gallu sylfaenol mewn arweinyddiaeth ddigidol, ond mae bylchau yn eu gwybodaeth a'r modd maent yn gweithredu. | 3.4 |
| **Profiad Cwsmer a Chyflawni'r Gwasanaeth** Pa mor effeithiol yw eich gwasanaeth wrth ddefnyddio sianeli digidol ar-lein i wella profiad y cwsmer a darparu gwasanaethau trafodiadol ar-lein? | Darpariaeth sylfaenol o ran gwasanaeth digidol, peth lle i wella. | 3.4 |
| **Gweithio'n Ddi-bapur** I ba raddau rydych chi'n teimlo bod eich gwasanaethau wedi newid i fod yn rhai di-bapur, lle bo hynny'n rhesymol. | Mae ein gwasanaethau mewnol wedi trawsnewid i raddau helaeth i lwyfannau digidol, gan leihau'r defnydd o bapur yn sylweddol, er bod rhai arferion papur yn parhau. | 3.6 |
| **Caledwedd a Dyfeisiau** I ba raddau ydych chi'n teimlo bod gan eich gwasanaeth y caledwedd a'r dyfeisiau angenrheidiol i fod yn effeithiol? (gliniaduron, cyfrifiaduron, llechi, ffonau clyfar ac ati) | Offer da - Mae'r rhan fwyaf o'r galedwedd a'r dyfeisiau angenrheidiol ar gael, gan alluogi cyflwyno effeithiol. | 3.8 |
| **Meddalwedd a Rhaglenni** Pa mor effeithiol ydych chi wrth ddefnyddio offer a rhaglenni digidol i symleiddio llif gwaith a gwella effeithlonrwydd? | Defnydd cymedrol o offer a rhaglenni digidol, gan arwain at rywfaint o symleiddio llifoedd gwaith a gwelliant cymedrol mewn effeithlonrwydd | 3.0 |
| **Gwybodaeth a Chynnwys Digidol** Pa mor drefnus a hygyrch yw cynnwys a gwybodaeth ddigidol o fewn eich gwasanaeth? (SharePoint, storio ffeiliau ac ati). | Gwybodaeth a chynnwys digidol wedi'u trefnu'n dda ac yn hawdd eu cyrchu a'u defnyddio. | 3.6 |
| **Cyfathrebu Digidol a Chydweithio** Pa mor effeithiol yw eich gwasanaeth wrth ddefnyddio llwyfannau digidol i gyfathrebu a chydweithio? | Defnydd effeithiol, hwyluso cydweithredu a chyfathrebu. | 3.8 |
| **Rheoli Data a Diogelwch** Pa mor effeithiol caiff data sensitif ei reoli a'i ddiogelu o fewn eich gwasanaeth a pha mor alluog ydych chi'n teimlo o ran cyflawni hynny? (ymarfer ac ymddygiad da ar gyfer GDPR a seiberddiogelwch) | Mae data sensitif yn cael ei reoli a'i ddiogelu'n dda, a chedwir yn agos at arferion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a seiberddiogelwch. Mae yna allu a hyder uchel o ran cynnal y safonau hyn yn effeithiol. | 3.8 |
| **Sgôr Aeddfedrwydd Digidol Gyfartalog ar gyfer y Sefydliad:** | | **3.5** |

## Rhan 3 - A yw'r Trefniadau Llywodraethu'n Effeithiol?

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023/24 fel y'i cynhwysir yn ein Datganiad Cyfrifon yn nodi bod Adolygiad Archwilio Mewnol wedi canfod bod trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn dderbyniol.

| **Canfyddiadau adolygiad Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Llywodraethu Corfforaethol** | |
|---|---|
| **Lefel y Sicrwydd ar ôl yr Adolygiad** | **Disgrifiad o Lefel y Sicrwydd** |
| Acceptable | Rheolaethau cymedrol, rhai meysydd lle mae diffyg cydymffurfio o ran rheolaethau y cytunwyd arnynt<br><br>Risg ganolig/isel o beidio â chyflawni'r amcanion<br><br>Risg ganolig/isel o dwyll, esgeulustod, colled, niwed i enw da |
| Ni chanfu Archwilio Mewnol unrhyw faterion rheoli hanfodol y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i ymdrin â nhw. | |

## Materion Llywodraethu Newydd a Nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023/24.

| **Y CYNLLUN GWEITHREDU – MATERION LLYWODRAETHU** | | | |
|---|---|---|---|
| **CYF. Y MATER** | **Y CAMAU GWEITHREDU** | **Y SWYDDOG CYFRIFOL** | **Y DYDDIAD TARGED** |
| **Uniondeb a Gwerthoedd** | | | |
| DLIB 2023/24 Rhif 1 | Datblygu a gwella proses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor Safonau a thrwy ddysgu o'r Fforwm Safonau Cenedlaethol | Swyddog Monitro | Mawrth 2025 |
| DLIB 2023/24 Rhif 2 | Sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn chwarae ei ran yn hunanasesiad y Cyngor. | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth<br><br>Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol | Mawrth 2025 |
| **Bod yn agored ac ymgysylltu** | | | |
| DLIB 2023/24 Rhif 3 | Strategaeth gynnwys i gael ei datblygu, gyda'r bwriad o wneud ein hymgynghoriadau yn fwy effeithiol. | Marchnata a'r Cyfryngau<br><br>Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth | Ionawr 2025 |
| DLIB 2023/24 Rhif 4 | Datblygu a gwella'r modd y caiff | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth | Mawrth 2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwybodaeth am berfformiad ei rhannu. | | |
| DLIB 2023/24 Rhif 5 | Gwella'r defnydd o wybodaeth am gwynion a sut y caiff y wybodaeth ei monitro er mwyn cefnogi dysgu a gwella gwasanaethau, ar gyfer cwynion Corfforaethol a rhai'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth | Mawrth 2025 |
| DLIB 2023/24 Rhif 6 | Sicrhau bod Cynllun Cyfathrebu'r Cyngor yn cyd-fynd â'r Strategaeth Gorfforaethol newydd a'r Amcanion Llesiant. | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth<br><br>Marchnata a'r Cyfryngau | Medi 2024 |
| **Gwneud gwahaniaeth** | | | |
| DLIB 2023/24 Rhif 7 | Cyflwyno Cyfres Data Corfforaethol y Cyngor i'w defnyddio i gefnogi'r gwaith o reoli perfformiad yn erbyn y Strategaeth Gorfforaethol a meysydd polisi allweddol | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth | Medi 2024 |
| **Gwerthfawrogi ein pobl: ymgysylltu, arwain a chefnogi** | | | |
| DLIB 2023/24 Rhif 8 | Diogelu - Cwblhau'r polisi a'r gronfa ddata gwirfoddolwyr | Prif Weithredwr Cynorthwyol | Rhagfyr 2024 |
| DLIB 2023/24 Rhif 9 | Datblygu data'r gweithlu ymhellach trwy ddangosfwrdd perfformiad | Prif Weithredwr Cynorthwyol | Rhagfyr 2024 |
| DLIB 2023/24 Rhif 10 | Er mwyn sicrhau bod gofynion Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 wedi'u hymgorffori fel sy'n briodol ar draws y Cyngor: Rhan 1: Y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Rhan 2: Partneriaeth Gymdeithasol a Datblygu Cynaliadwy | Rhan 1 a 2: Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl)<br><br>Rhan 3: Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol | Mawrth 2025 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Rhan 3: Caffael cyhoeddus mewn modd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol | | |
| **Rheoli risg, perfformiad a chyllid** | | | |
| DLIB 2023/24 Rhif 11 | Parhau i ddatblygu trefniadau rheoli risg a'u gwella, drwy adrodd am risgiau. | Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol | Mawrth 2025 |
| DLIB 2023/24 Rhif 12 | Dylid llofnodi'r cyfrifon drafft erbyn 30 Mehefin, a'u cymeradwyo'n derfynol erbyn 30 Medi, mae'r amserlen a'r prosesau wedi'u diwygio i sicrhau eu bod yn cael cyflawni erbyn yr amserlen cau. | Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol | Medi 2024 |
| **Tryloywder da ac atebolrwydd** | | | |
| DLIB 2023/24 Rhif 13 | Byddwn yn sicrhau bod dull cadarn o ymdrin â seiberddiogelwch ac atebion cynaliadwy yn cael eu gweithredu ar gyfer Llywodraethu Gwybodaeth. | Prif Swyddog Digidol | Mawrth 2025 |

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae’r Cyngor yn credu mai Llywodraethu Corfforaethol yw:

> *“gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i’r bobl iawn mewn modd amserol, cynhwysol, agored, gonest ac atebol.”*

Mae’r Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys y systemau a’r prosesau, y diwylliannau a’r gwerthoedd hynny sy’n cyfarwyddo ac yn rheoli’r Awdurdod ynghyd â’r modd y mae'n atebol i’r gymuned, yn ymgysylltu â hi ac yn ei harwain. Mae’r Fframwaith yn galluogi'r Awdurdod i fonitro i ba raddau y cyflawnwyd ei amcanion strategol ac i ystyried a yw’r amcanion hynny wedi arwain at gyflenwi gwasanaethau priodol a chost-effeithiol.

Mae'r Awdurdod yn manylu ar y modd y mae'n ymdrin â phob agwedd ar Lywodraethu drwy ei Gyfansoddiad sy'n diffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Weithrediaeth, Aelodau'r Awdurdod, ei Bwyllgorau a'i Swyddogion. Mae'r Cyfansoddiad yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses gwneud penderfyniadau, gan ystyried y ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2023/24 fel y'i cynhwysir yn ein Datganiad Cyfrifon yn nodi bod Adolygiad Archwilio Mewnol wedi canfod bod trefniadau Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor yn dderbyniol.

| **Canfyddiadau adolygiad Archwilio Mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a Llywodraethu Corfforaethol** | |
|---|---|
| **Lefel y Sicrwydd ar ôl yr Adolygiad** | **Disgrifiad o Lefel y Sicrwydd** |
| Derbynniol | Rheolaethau cymedrol, rhai meysydd lle mae diffyg cydymffurfio o ran rheolaethau y cytunwyd arnynt<br>Risg ganolig/isel o beidio â chyflawni'r amcanion<br>Risg ganolig/isel o dwyll, esgeulustod, colled, niwed i enw da |
| Ni chanfu Archwilio Mewnol unrhyw faterion rheoli hanfodol y dylid rhoi blaenoriaeth uchel i ymdrin â nhw. | |

Mae cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn y camau a nodwyd yn y Datganiadau Llywodraethu Blynyddol blaenorol fel y nodir isod;

| **Y Ffynhonell** | **Y MATERION** | **Y CAMAU GWEITHREDU/ Y CYNNYDD** | | **STATWS** |
|---|---|---|---|---|
| DLIB 2020/21 Rhif 2 | Gweithredu gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) | Mai 2022 | Mae gan yr elfennau nad ydynt wedi'u gweithredu hyd yma amserlen y mae angen ei bodloni i gyflawni gofyniad / amserlen y Ddeddf.<br><br>Rhoddwyd elfennau o berfformiad a llywodraethu ar waith. Etholiadau yn cael eu cynnal | Yn parhau<br>Mae rhannau o’r ddeddfwriaeth yr oedd angen eu gweithredu wedi cael eu cwblhau.<br><br>Ymgorfforwyd yr elfen hunanasesu.<br><br>Arhosir am ganllawiau gan y WLGA ynghylch asesiadau gan panel. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Cwblhawyd yn rhannol – cwblhawyd yr elfen perfformiad. |
| DLIB 2021/22 Rhif 1 | Datblygu strategaeth recriwtio a chynllun gweithlu ochr yn ochr â chyflwyno meddalwedd recriwtio newydd i sicrhau y gellir symleiddio a chynnal y gwasanaeth recriwtio. | Mawrth 2023 | Ar waith – Meddalwedd newydd ar waith – profi'r system a chyflwyno hyfforddiant – o fis Mawrth 2023.<br><br>Bydd y strategaeth yn dilyn unwaith mae'r system ar waith.<br><br>Mae system recriwtio newydd ar waith ac mae'r hyfforddiant yn parhau. (Mawrth 2024). Mae strategaeth recriwtio yn cael ei drafftio a bydd yn destun ymgynghoriad yn ystod yr haf/dechrau hydref 202 | Wedi cychwyn.<br><br>Cwblhawyd y profi ac mae diweddariadau wedi-profi ar waith ar y system. (Mai 2023). Strategaeth Gweithlu yn mynd i'r TRhC 30 Mawrth Cyfarfod arbennig o'r TRhC i drafod materion gweithlu ar 4 Mai a chynnydd ar feddalwedd newydd. Strategaeth yn mynd i'r Rhag-gabinet ar 18 Mai |
| DLIB 2021/22 Rhif 4 | Datblygu cynllun Ymgysylltu ac Ymgynghori ar gyfer yr awdurdod lleol. | Mawrth 2023 | Dechreuodd y gwaith – myfyrio ar ganfyddiadau'r arolwg staff a'r IIP | Wedi cychwyn<br><br>Ymgysylltu gydag Undebau Llafur - cyflwynwyd cyd fforwm ymgynghorol - mae'r arweinyddion grwpiau a'r Prif Weithredwr yn mynychu hefyd. Y nod yw gwella ymgysylltu ac ymgynghori<br><br>Cwblhawyd adborth staff |
| DLIB 2021/22 Rhif 5 | Gwaith datblygu pellach ar ymdrin â chwynion ac ymchwilio i gwynion | Mawrth 2023 | Gwnaed darn o waith ar yr adnoddau sydd eu hangen i ymchwilio cwynion.<br><br>Triongli hyn gyda'r FOIA ac ymholiadau Aelodau. | Wedi cychwyn<br><br>Cwblhawyd yr adolygiad o drefniadau trin cwynion. Mae angen darn arall o waith i adolygu'r broses ymchwilio yng ngham 2 i sicrhau bod cysondeb o ran dulliau a safonau. |
| DLIB 2021/22 Rhif 6 | Adolygu'r gwasanaeth cwsmeriaid yr ydym ni fel Cyngor yn ei ddarparu a sut y gallwn wella taith y cwsmer ymhellach. | Mawrth 2023 | O 1 Rhagfyr 2022 – Datblygu Hybiau – gwell mynediad i gwsmeriaid – cyflwynwyd dyddiau thematig. | Wedi cychwyn<br><br>Perthyn i ffrwd gwaith Trawsnewidiad Cwsmer Digidol – sy'n monitro'r cynnydd.<br>Cyllid SPF – Hwb Fach y Wlad – i'w weithredu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| DLIB 2021/22 Rhif 12 | Adolygu'r trefniadau Llywodraethu ar gyfer y ddau Gwmni Masnachu Awdurdod Lleol gyda'r bwriad o gysoni'r trefniadau ac egluro rolau Aelodau a Phwyllgorau Craffu mewn perthynas â'r Cwmnïau Masnachu Awdurdod Lleol. | Mawrth 2023 | Cynhaliwyd a chwblhawyd adolygiad gan y Swyddog Monitro. Mae'r adroddiad yn cael ei gwblhau.<br><br>Bydd CWM yn mynd ag adroddiad adolygu llywodraethiant i Fwrdd CWM. | Wedi cychwyn<br><br>Diweddariad: Cynhaliwyd a chwblhawyd adolygiad llywodraethiant gan y Swyddog Monitro. Mae'r adroddiad yn cael ei gwblhau.<br><br>Mae CWM wedi mynd ag adroddiad adolygu llywodraethiant i Fwrdd CWM. – Cwblhawyd gweithredu Cwm. |
| DLIB 2022/23 Rhif.4 | Llunio Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac ystyried a ddylid cyflwyno'r adroddiad blynyddol i'r Cyngor llawn. | 30 Mehefin 2024 | | Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno ei adroddiad i'r cyfarfod nesaf, yna bydd yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn. |

## Y CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CWBLHAU

| MATERION LLYWODRAETHU 2022/23 - Y CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CWBLHAU | |
|---|---|
| **Y Ffynhonell** | **Y CAMAU GWEITHREDU** |
| DLIB 2021/22 Rhif.8 | Sefydlu mecanwaith llywodraethu clir i ysgogi cynnydd yn erbyn pob Amcan Llesiant a nodi meysydd gwasanaeth a themâu blaenoriaeth i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant. |
| DLIB 2022/23 Rhif. 1 | Ymgorffori'r trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud â'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant Newydd ar gyfer 2022-27<br><br>Dulliau llywodraethu bellach ar waith – cwblhawyd |
| DLIB 2022/23 Rhif.2 | Byddwn yn sicrhau bod Rheoli Perfformiad Corfforaethol ac Archwilio Mewnol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn chwarae ei ran yn Hunanasesiad Cyffredinol y Cyngor.<br><br>Mae'r hunanasesiad bellach wedi'i gwblhau fel rhan o Adroddiad Blynyddol 2022/23 a bydd yn cael ei ailystyried bob blwyddyn. |
| DLIB 2022/23 Rhif.3 | Tîm Mewnwelediad Data i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a dadansoddi gweithgarwch ymgynghori sy'n deillio o'r Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (yn benodol gyda thrigolion, busnesau, undebau llafur a staff).<br><br>Mae dau gylch ymgynghori wedi'u cwblhau a byddant nawr yn ymrwymiad blynyddol |

# Mae'r tablau canlynol yn gyflwyniad o ganlyniadau a sylwadau ar ein Cyfres Ddata Gorfforaethol sy'n gysylltiedig â phob Amcan a Blaenoriaeth Llesiant.

## Ein Cyfres Ddata Gorfforaethol gyda'n Dangosyddion a'n Mesurau Llwyddiant - 2023/24

| | | Pa mor dda yr ydym wedi ei wneud? | Pa mor dda ydym yn ei wneud? | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gweler esboniad o'r perfformiad | | | | Gwybodaeth Gymharol Cymru Gyfan | | |
| Diffiniad / Cyfeirnod DP | | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 1 Trosfwaol** | | | | | | | | | |
| 1 | **% y Plant sy'n Byw mewn Tlodi**<br><br>*Mae'r data hwn yn defnyddio dangosyddion lleol yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EF ynghyd â gwybodaeth am gostau tai ar lefel leol i amcangyfrif cyfraddau tlodi ar ôl costau tai. Mae'n nodi faint o blant y credir eu bod yn byw mewn aelwydydd ag incwm sydd o dan 60% o'r canolrif* | 31.3% (2019/20) | Dim targed | 34.6% (2020/21) | Amherthnasol | ▼ | 31.3% | 28.4% | *** |
| | | Yn gyffredinol, mae cyfraddau tlodi plant wedi bod ar gynnydd yn y sir gyda chynnydd o 5.3 pwynt canran rhwng 2014/15 ar 29.3% a 2020/21 ar 34.6%. Mae hyn yn gyson â'r tueddiadau a welir yn genedlaethol. Mae data 2020/21 o 34.6% yn cyfateb i bron 11,250 o blant a 0.6% yn fwy na chyfartaledd Cymru. Dyma'r 11eg lefel uchaf o holl awdurdodau lleol Cymru, sy'n welliant ar y 12fed lefel uchaf y flwyddyn flaenorol. Mae tlodi yn effeithio ar bob agwedd ar fywyd rhywun. Mae'n arbennig o niweidiol i blant, gan effeithio ar eu hiechyd a'u datblygiad hirdymor, eu cyrhaeddiad addysgol a'r cyfleoedd a gânt. Mae plentyn sy'n tyfu i fyny mewn tlodi mewn mwy o berygl o beidio â chael y dechrau gorau mewn bywyd o ystyried y gallai ei fynediad at fwyd, lloches, gofal iechyd ac addysg gael ei beryglu. Mae'r Cyngor wedi gweld galw cynyddol am lawer o'i wasanaethau a'i systemau cymorth yn dilyn y pandemig. Nawr mae hyn wedi gwaethygu yn sgil effeithiau'r argyfwng costau byw sy'n golygu bod rhai teuluoedd yn ei chael hi'n anodd cael deupen y llinyn ynghyd. Fel bob amser, blaenoriaeth y Cyngor yw sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi, gan ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal. | | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod DP</th><th>2022/23 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2023/2024 neu fwyaf diweddar</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Canlyniad Gwirioneddol</th><th>Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹</th><th>A wnaethom ni wella ▲ neu▼</th><th>Cyfartaledd Cymru</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td rowspan="2">2</td><td rowspan="2">**% y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew**</td><td>**31.4% (2021/22)**</td><td>Dim targed</td><td>**30.5% (2022/23)**</td><td>Amherthnasol</td><td>▲</td><td>**24.8%**</td><td>**23.2%**</td><td>*</td></tr>
<tr><td colspan="8">Lefelau Gordewdra yn ystod Plentyndod yn Sir Gaerfyrddin yw'r uchaf yng Nghymru.<br>Yn 2022/23 yn Sir Gaerfyrddin roedd 30.5% o blant 4-5 oed dros bwysau neu'n ordew, sef y lefelau uchaf yng Nghymru. Er gwaethaf gostyngiad bach yn y % ers y flwyddyn flaenorol, mae'r nifer gwirioneddol o blant 4-5 oed yr ystyrir eu bod dros bwysau neu'n ordew wedi cynyddu o 510 yn 2021/22 i 524 yn 2022/23.<br>Bydd gordewdra yn gynnar mewn bywyd yn cael effeithiau niweidiol ar iechyd yn y tymor hir ac yn ei dro bydd yn effeithio ar gyfleoedd bywyd y person hwnnw.<br>Er na all y Cyngor ar ei ben ei hun effeithio ar lefel y newid sydd ei angen i leihau gordewdra ymhlith plant, mae gan nifer o wasanaethau'r Cyngor rôl bwysig i'w chwarae, megis darparu prydau ysgol maethlon a mynediad at weithgareddau hamdden a chwaraeon.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">**Nifer y Plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar 31 Mawrth fesul 10,000 o'r boblogaeth sydd dan 18 oed**</td><td>**27.37 (fesul 10,000 o'r boblogaeth) (2021/22)**</td><td>Dim targed</td><td>**34.08 (fesul 10,000 o'r boblogaeth) (2022/23)**</td><td colspan="2">Amherthnasol</td><td>**47.72** fesul 10,000 o'r boblogaeth</td><td colspan="2">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Mae nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant yn parhau i gynyddu o 27 i 34 o blant fesul 10,000 o'r boblogaeth rhwng 2021/22 a 2022/23, er gwaethaf hyn, mae'r lefel yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 47 fesul 10,000 o'r boblogaeth. Cynyddodd y nifer gwirioneddol o 102 yn 2021/22 i 125 yn 2022/23, ac mae ffigurau ar gyfer 23/24 yn nodi gostyngiad, gyda 100 o blant wedi'u cofnodi'n rhai sydd ar y gofrestr. Mae hyn yn dangos bod ffigurau'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Gwneir penderfyniadau i gofrestru/dadgofrestru enwau plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant mewn cynadleddau achos amlddisgyblaethol, ac mae achosion hefyd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â gweithdrefnau Llywodraeth Cymru.</td></tr>
</table>

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 1a - Blaenoriaeth Thematig - Bywydau Iach – atal / ymyrraeth gynnar** | | | | | | | | | |
| 4 | **% y Genedigaethau sengl byw gyda phwysau geni o dan 2,500g** | **6.5% (2022)** | Dim targed | **5.0% (2023)** | Amherthnasol | ▲ | **6.1%** | **5.5%** | ******** |
| | | Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2023 yn dangos bod lefel y pwysau geni isel yn Sir Gaerfyrddin wedi lleihau. Mae'r ffigurau diweddaraf hyn yn dangos bod ein ffigurau yn is na chyfartaledd Cymru o 5.5% a bod gennym y lefel drydedd isaf o bwysau geni isel yng Nghymru. Mae babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel mewn mwy o berygl o ddatblygu problemau iechyd. Mae'n gadarnhaol felly, yn gyffredinol, bod canran y babanod sy'n cael eu geni â phwysau geni isel wedi bod yn gostwng yn Sir Gaerfyrddin. | | | | | | | |
| 5 | **Nifer y plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol ar 31 Mawrth fesul 10,000 o boblogaeth dan 18 oed** | **45.62 (fesul 10,000 o'r boblogaeth) (2021/22)** | Dim targed | **51.80 (fesul 10,000 o'r boblogaeth) (2022/23)** | Amherthnasol | | **116.44** fesul 10,000 o'r boblogaeth | Amherthnasol | |
| | | Rydym yn parhau i fod â'r nifer isaf o blant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth o dan 18 oed yn Sir Gaerfyrddin o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru, ac ymhell islaw cyfartaledd Cymru o 116.44. Ein ffigwr ar ddiwedd mis Mawrth 2023 oedd 51.80 fesul 10,000 o'r boblogaeth, ac mae hyn yn cyfateb i 190 o blant sy'n derbyn gofal. Ar ddiwedd mis Mawrth 2024 cynyddodd hyn i 259, sef cynnydd o 36%, ni fydd y data cymharol ar gyfer hyn fesul 10,000 o'r boblogaeth ar gael tan ddiwedd 2024, ond rydym wedi bod yn isel yng nghyd-destun awdurdodau lleol eraill ers blynyddoedd lawer. | | | | | | | |
| 6 | **Nifer y plant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau maeth ar 31 Mawrth** | **149 o blant** Mawrth 2023 | Dim targed | **209 o blant** Mawrth 2024 | Amherthnasol | | **4,995** (Cyfanswm Cymru Mawrth 2023) | Amherthnasol | |
| | | Mae cynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal sydd mewn Lleoliadau Maeth ar ddiwedd Mawrth 2024, sy'n cyd-fynd â'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae prinder gofalwyr maeth yn lleol ac yn genedlaethol o hyd, sy'n effeithio ar sefydlogrwydd lleoliadau. Mae'r adran yn cydweithio ar draws y rhanbarth gyda Maethu Cymru a derbyniodd ymgyrch recriwtio gofalwyr maeth cenedlaethol sylw mawr yn y cyfryngau. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 7 | **Nifer y cyfranogiadau at gyfleoedd chwaraeon a chorfforol a hwyluswyd gan Gymunedau Actif (3.4.2.8)** | **215,491** | 226,266 | **211,004** | ☹ | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Er nad oedd canlyniad 2023/24 wedi cyrraedd y targed, newidiodd y tîm eu ffocws i ble roedd y galw yn uchel ac roedd llai o ffocws ar gyfranogiad torfol o ran cyflawni uniongyrchol. Yn ogystal, roeddem 2 aelod o staff yn llai am 9 mis oherwydd salwch a mamolaeth, a olygodd nad oedd modd cyflawni rhannau o'r gwasanaeth. | | | | | | | |
| 8 | **% y plant sy'n gallu nofio 25m yn 11 oed (3.4.2.1)** | **41.5%** (Blwyddyn Academaidd 21/22) | 45.0% | **37.2%** (Blwyddyn Academaidd 22/23) | ☹ | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Yn anffodus mae gostyngiad yng nghanran y plant 11 oed sy'n gallu nofio 25m. Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu diffyg nofio ysgol oherwydd rhesymau cysylltiedig â Covid-19. Mae rhai plant heb fod yn nofio o'r blaen ac mae ganddynt bwynt cychwyn is nag o'r blaen. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn nofio am lai o amser na blynyddoedd blaenorol (e.e. 10 diwrnod yn hytrach na 15) gan fod ysgolion naill ai methu fforddio'r gwariant ar deithio neu'n cael trafferth gyda'r gweithlu o ran rhyddhau staff i fynd gyda'r plant i'r canolfannau hamdden. | | | | | | | |
| 9 | **Nifer yr asesiadau newydd a gwblhawyd ar gyfer plant yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn amserlenni statudol (CH/006a/012)** | **83.0%** | 83.6% | **63.0%** | Amherthnasol | | Amherthnasol | | |
| | | Sylwch ar y newid yn niffiniad a methodoleg y mesur hwn gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2023/24, sydd yn ei dro wedi lleihau'r canlyniad yn ddramatig ond sydd bellach yn llawer mwy defnyddiol ac ystyrlon fel mesur ond nad yw'n gymaradwy mwyach â blynyddoedd blaenorol. Mae canlyniad 2023/24 o gwblhau 63% yn unig o'r asesiadau newydd o fewn y terfyn amser o 42 diwrnod gwaith i weld yn isel, ond mae'r maes gwasanaeth yn credu bod ansawdd yr asesiadau yn fwy ystyrlon yn hytrach na'r cwblhau o fewn terfynau amser. Mae hyn yn cael ei gwmpasu gan y fframwaith sicrhau ansawdd sydd ar waith i sicrhau bod asesiadau a chynlluniau yn canolbwyntio ar ganlyniadau, cyd-gynhyrchu, ac yn tystiolaethu i lais plant a phobl ifanc. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 10 | **% y plant mewn gofal oedd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy (CH/043)** | **7.4% (14/190)** | 6.8% | **8.5% (22/259)** | ☹ | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Ni chyrhaeddwyd y targed o 6.8% yn ystod 2023/24 wrth i 22 o'r 259 o blant sy'n derbyn gofal symud dair gwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn o gymharu â 7.4% (14 o'r 190 o blant sy'n derbyn gofal) yn 2022/23. Roedd cynnydd o 36% yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ar 31 Mawrth 2024, i 259 o gymharu â 190 y flwyddyn flaenorol. Mae prinder gofalwyr maeth yn lleol ac yn genedlaethol o hyd, sy'n effeithio ar sefydlogrwydd lleoliad. Mae'r adran yn cydweithio ar draws y rhanbarth gyda Maethu Cymru a derbyniodd ymgyrch recriwtio gofalwyr maeth cenedlaethol sylw mawr yn y cyfryngau.<br>Mae adolygiad gofal maeth wedi'i gwblhau ac mae cynllun gweithredu y cytunwyd arno a gwaith datblygu yn parhau i gynyddu ystod a math y lleoliadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal drwy strategaeth breswyl yr adran ar gyfer plant a chynllun trawsnewid y gwasanaeth maethu. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 1b - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Blynyddoedd Cynnar** | | | | | | | | | |
| 11 | **Nifer y Lleoedd Gofal Plant Cofrestredig sydd ar gael yn Sir Gaerfyrddin** | **4,165 (2016/17)** | Dim targed | **4,772** (Mehefin 2021) | Amherthnasol | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Caiff y data hwn ei gasglu bob pum mlynedd gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a'i gyhoeddi yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Sir Gaerfyrddin (2022-27). Mae'r adroddiad hwn yn dangos, ers yr asesiad diwethaf yn 2016, mai dim ond cynnydd o 15% sydd wedi bod yn nifer y lleoedd gofal plant cofrestredig sydd ar gael yn Sir Gaerfyrddin, llawer llai na'r galw. O'r lleoliadau hyn sydd ar gael mae 54% ohonynt yn llefydd cyfrwng Cymraeg sydd yn gynnydd o 3% yn unig ar ffigyrau 2016. | | | | | | | |

| Diffiniad / Cyfeirnod DP | | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 1c - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Addysg** | | | | | | | | | |
| 12 | **% y Rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs)** | **1.9%** | 1.0% | **2.3%** | ☹ | ▼ | **2.0%** | **1.5%** | ** |
| | | Gostyngiad sylweddol yn nifer y rhai sy'n gadael Blwyddyn 11 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant yn ystod 2023/24 gyda 2.3% (46 allan o 1,987) o gymharu â 1.9% (36 allan o 1,914) y flwyddyn flaenorol. Mae'r canlyniad bellach yn yr 17eg safle yng Nghymru, i lawr o'r 10fed safle y flwyddyn flaenorol ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 2.0%. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wedi darparu'r gwaith ieuenctid pontio ôl-16 yn unol â Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid Llywodraeth Cymru trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaed gwaith i sicrhau bod gwybodaeth am y fframwaith yn cael ei deall o fewn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant. | | | | | | | |
| 13 | **% y Rhai sy'n gadael Blwyddyn 13 Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs)** | **3.8%** | 2.5% | **5.0%** | ☹ | ▼ | **3.6%** | **2.4%** | * |
| | | Gostyngiad sylweddol yn nifer y rhai sy'n gadael Blwyddyn 13 nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant yn ystod 2023/24 gyda 5.0% (31 allan o 616) o gymharu â 2.5% (26 allan o 691) y flwyddyn flaenorol. Mae'r canlyniad bellach yn y 18fed safle yng Nghymru, i lawr o'r 16eg safle y flwyddyn flaenorol ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 3.6%. Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid wedi darparu'r gwaith ieuenctid pontio ôl-16 yn unol â Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid Llywodraeth Cymru trwy gydol y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaed gwaith i sicrhau bod gwybodaeth am y fframwaith yn cael ei deall o fewn yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant. | | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod DP</th><th>2022/23 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2023/2024 neu fwyaf diweddar</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Canlyniad Gwirioneddol</th><th>Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹</th><th>A wnaethom ni wella ▲ neu▼</th><th>Cyfartaledd Cymru</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td rowspan="2">14</td><td rowspan="2">% presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (PAM/007)</td><td>89.5%</td><td>90.0%</td><td>91.1%</td><td>☺</td><td>▲</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Yn genedlaethol, mae canran y sesiynau hanner diwrnod a fethwyd gan ddisgyblion oed ysgol gynradd wedi cynyddu i 8.5% rhwng 2018/19 a 2022/23. Adlewyrchir y duedd hon yn y canlyniad o 91.1% (absenoldeb o 8.9%) o gymharu â 93.9% (absenoldeb o 6.1%) yn 2018/19. Fodd bynnag, mae hyn yn welliant ar ganlyniad y llynedd (2022/23) o 89.5%.<br>Mae absenoldeb wedi cynyddu o ganlyniad i'r pandemig, enghreifftiau o resymau h.y. dirywiad mewn ymddygiad sy'n arwain at gynnydd mewn gwaharddiad am dymor penodol; cynnydd mewn salwch ac apwyntiadau meddygol; cynnydd mewn gwyliau teuluol. Roedd arolygiad Estyn o'r Awdurdod Lleol ym mis Gorffennaf 2023 yn cydnabod bod gwella presenoldeb ysgolion yn argymhelliad. Felly mae Strategaeth Bresenoldeb ddiwygiedig yn cael ei llunio a fydd yn cwmpasu pob agwedd ar bresenoldeb/absenoldeb.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">15</td><td rowspan="2">% presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (PAM/008)</td><td>83.0%</td><td>85.5%</td><td>86.4%</td><td>☺</td><td>▲</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Yn genedlaethol, mae canran y sesiynau hanner diwrnod a fethwyd gan ddisgyblion oed ysgol uwchradd wedi dyblu i 12.5% rhwng 2022/23 a 2018/19. Adlewyrchir y duedd hon yn y canlyniad o 86.4% (absenoldeb o 13.6%) o gymharu â 93.5% (absenoldeb o 6.5%) yn 2018/19. Fodd bynnag, mae hyn yn welliant ar ganlyniad blwyddyn Academaidd y llynedd (2022/23) o 83%.<br>Cynyddodd absenoldeb o ganlyniad i'r pandemig, enghreifftiau o resymau h.y. dirywiad mewn ymddygiad gan arwain at gynnydd mewn gwaharddiad am dymor penodol; cynnydd mewn salwch ac apwyntiadau meddygol; cynnydd mewn gwyliau teuluol. Roedd arolygiad Estyn o'r Awdurdod Lleol ym mis Gorffennaf 2023 yn cydnabod bod gwella presenoldeb ysgolion yn argymhelliad. Felly mae Strategaeth Bresenoldeb ddiwygiedig yn cael ei llunio a fydd yn cwmpasu pob agwedd ar bresenoldeb/absenoldeb.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">16</td><td rowspan="2">Trigolion sy'n credu bod ysgolion yn darparu lefel dda o addysg<br><br>Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog: Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.</td><td>0.52<br>(Sgôr SMG)</td><td>Dim targed</td><td>0.41<br>(Sgôr SMG)</td><td>Amherthnasol</td><td>▼</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cafwyd bron 4,000 o ymatebwyr i'n harolwg trigolion 2023, a'r cytundeb cyffredinol oedd bod ysgolion lleol yn darparu addysg dda i blant a phobl ifanc gyda Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS) o 0.41. Mae hyn yn ostyngiad bach ar sgôr 2022 o 0.52 ond mae'n parhau i fod yn gytundeb cyffredinol.</td></tr>
</table>

# Amcan Llesiant 2 - Galluogi ein preswylwyr i fyw a heneiddio'n dda (Byw a Heneiddio'n Dda)

## Ein Cyfres Ddata Gorfforaethol gyda'n Dangosyddion a'n Mesurau Llwyddiant - 2023/24

| | | Pa mor dda yr ydym wedi ei wneud? | Pa mor dda ydym yn ei wneud? | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gweler esboniad o'r perfformiad | | | | Gwybodaeth Gymharol Cymru Gyfan | | |
| Diffiniad / Cyfeirnod DP | | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 2 - Trosfwaol** | | | | | | | | | |
| 1a | **Disgwyliad oes iach adeg genedigaeth (Dynion)**<br>*Mae Disgwyliad Oes Iach yn mesur nifer y blynyddoedd y disgwylir i rywun fyw mewn iechyd da.* | **60.4 o flynyddoedd (2017-19)** | Dim targed | **59.7 o flynyddoedd (2018-20)** | Amherthnasol | ▼ | **61.5 o flynyddoedd** | **63.4 o flynyddoedd** | * |
| | | Yn gyffredinol, mae pobl yn byw'n hirach nag erioed o'r blaen oherwydd datblygiadau mewn gofal iechyd a gwelliant cyffredinol mewn safonau byw. Fodd bynnag, ceir amrywiadau mewn Disgwyliad Oes Iach rhwng rhyw a lle mae person yn byw. Mae Disgwyliad Oes Iach i ddynion yn Sir Gaerfyrddin yn is na'r ffigur ar gyfer menywod a gwelwyd gostyngiad rhwng 2017-19 a 2018-20 o 60.4 i 59.7 o flynyddoedd. Dyma'r 18fed lefel isaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'n llai na chyfartaledd Cymru sef 61.5 o flynyddoedd.<br>Mae data seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn dangos mai'r bwlch mewn disgwyliad oes iach i ddynion yn Sir Gaerfyrddin rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig yw 10.8 mlynedd, ac mae hyn yn is na bwlch cyfartalog Cymru o 13.3 mlynedd. | | | | | | | |
| 1b | **Disgwyliad oes iach adeg genedigaeth (Fenywod)** | **61.1 o flynyddoedd (2017-19)** | Dim targed | **61.8 o flynyddoedd (2018-20)** | Amherthnasol | ▲ | **62.4 o flynyddoedd** | **65.8 o flynyddoedd** | ** |
| | | Bu cynnydd mewn Disgwyliad Oes Iach i fenywod dros yr un cyfnod, o 61.1 i 61.8 o flynyddoedd. Dyma'r 13eg lefel isaf o'r holl awdurdodau lleol ac mae hefyd yn llai na chyfartaledd Cymru sef 62.4.<br>Mae hon yn ystyriaeth bwysig yn Sir Gaerfyrddin gan fod y sir yn gartref i lefel uwch na'r cyfartaledd o bobl dros 65 oed a gallai hyn, o'i gyfuno â Disgwyliad Oes Iach sy'n is na'r cyfartaledd, arwain at fwy o bwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.<br>Y bwlch mewn disgwyliad oes iach i fenywod yn Sir Gaerfyrddin rhwng y mwyaf a'r lleiaf difreintiedig yw 8.9 mlynedd, ac mae hyn bron hanner bwlch cyfartalog Cymru o 16.9 mlynedd. | | | | | | | |

<table>
<tr><th rowspan="2" colspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod DP</th><th>2022/23 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2023/2024 neu fwyaf diweddar</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Canlyniad Gwirioneddol</th><th>Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹</th><th>A wnaethom ni wella ▲ neu ▼</th><th>Cyfartaledd Cymru</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td rowspan="2">2</td><td rowspan="2">Aelwydydd mewn amddifadedd materol<br><br>Mae amddifadedd materol yn fesur sydd wedi'i gynllunio i ddangos canlyniadau tlodi hirdymor ar aelwydydd, yn hytrach na phwysau ariannol yn y tymor byr.</td><td>12.0%<br>(2021/22)</td><td>Dim targed wedi'i</td><td>16.7%<br>(2022/23)</td><td>Amherthnasol</td><td>▼</td><td>15.5%</td><td>13.8%</td><td>**</td></tr>
<tr><td colspan="8">Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae lefelau Amddifadedd Materol ar gynnydd.<br>Mae'r data diweddaraf (2022/23) yn dangos bod 16.7% o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn amddifadedd materol. Mae hyn yn uwch na ffigur cyfartalog Cymru o 15.3%, y lefel 7fed uchaf o blith yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru ac mae'n gynnydd ar ffigurau 2021/22 (12%).<br>Mae'r duedd gynyddol hon yn unol â thueddiadau cynyddol yn gyffredinol ar gyfer cyfraddau tlodi. Mae'r argyfwng costau byw parhaus hefyd yn debygol o gael effaith niweidiol ar lefelau amddifadedd aelwydydd.<br>Mae'r Cyngor yn gwneud gwaith trawsadrannol sylweddol i gefnogi trigolion y mae'r argyfwng costau byw yn effeithio arnynt a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi. Mae'r wybodaeth a gasglwyd wedi arwain at ddatblygu Cynllun Trechu Tlodi sy'n annog dull integredig.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">3</td><td rowspan="2">Sgôr llesiant meddwl oedolion<br><br>Ar sail graddfa llesiant meddwl Warwick Edinburgh - sgôr rhwng isafswm o 14 i uchafswm o 70.</td><td>48.8 (sgôr)<br>(2021/22)</td><td>Dim targed</td><td>48.3 (sgôr)<br>(2022/23)</td><td>Amherthnasol</td><td>▼</td><td>48.2 (sgôr)<br>(2022/23)</td><td>48.9 (sgôr)<br>(2022/23)</td><td>**</td></tr>
<tr><td colspan="8">Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae'r Sgôr ar gyfer Llesiant Meddwl Oedolion ar i lawr, sy'n gyson â thueddiadau cenedlaethol.<br>Y sgôr ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn 2022/23 oedd 48.3, a oedd yn ostyngiad ar y ffigurau blaenorol ar gyfer 2021/22 (48.8). Efallai bod hyn yn arwydd o effeithiau'r pandemig, pryd y gwelsom y newid mwyaf i fywyd arferol ers degawdau. Gwelwyd gostyngiadau ar lefel Cymru hefyd.<br>Safle Sir Gaerfyrddin o gymharu â'r awdurdodau lleol eraill yng Nghymru yw'r 10fed isaf, o gymharu â'r 11eg isaf ar gyfer y flwyddyn flaenorol.<br>Mae canfyddiadau ymgynghoriad diweddar gan drigolion yn dangos bod yr ymatebwyr yn cytuno'n gyffredinol y dylid ystyried cefnogi iechyd meddwl pobl yn y sir.<br>Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn ac mae wedi ymrwymo i weithio gyda phartneriaid i ddarparu lefelau hygyrch a phriodol o gymorth i unigolion â phroblemau iechyd meddwl, gan ganolbwyntio ar ehangu mynediad a chymorth i blant ac oedolion bregus.</td></tr>
</table>

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 4 | **Oedolion a 2 neu fwy o ymddygiadau ffordd o fyw iach** | **92.4%** **(2021/22)** | Dim targed | **92.5%** **(2022/23)** | Amherthnasol | ▲ | **92.3%** | **93.4%** | *** |
| | *Ymddygiadau ffordd o fyw iach a ddiffinnir fel:• Ddim yn ysmygu,*<br>*• Bod o bwysau iach,*<br>*• Bwyta pump o ffrwythau/llysiau y dydd,*<br>*• Ddim yn yfed alcohol yn ormodol, a*<br>*• Gwneud ymarfer corff yn unol â'r canllawiau* | Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru mae nifer yr oedolion sydd â 2 (neu fwy) o Ymddygiad Ffordd o Fyw Iach yn Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu ychydig o 92.4% i 92.5%. Mae hyn wedi golygu bod y sir yn arddangos y 9fed ffigur uchaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru, sy'n welliant o fod yn 13eg y flwyddyn flaenorol. Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru o 92.3%. Byddai gwelliant parhaus ar gyfer y mesur hwn yn debygol o arwain at welliant mewn Disgwyliad Oes Iach. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 2a - Blaenoriaeth Thematig - Trechu Tlodi** | | | | | | | | | |
| 5 | **% yr Aelwydydd sy'n Byw mewn Tlodi** | **34.5%** **(2022)** | Dim targed | **34.6%** **(2023)** | Amherthnasol | ▼ | **33.5%** | **32.6%** | ** |
| | *Diffinnir tlodi fel 60% o Incwm Canolrif Prydain Fawr (60% o £39,294 = £23,576 ar gyfer 2023)* | Mae'r data diweddaraf sydd ar gael (2023) yn awgrymu bod 34.6% o'r holl aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn byw mewn tlodi, ac mae hyn yn cyfateb i tua 28,700 o aelwydydd. Mae hyn yn ostyngiad bach ers y llynedd sy'n adlewyrchu tueddiadau a welwyd yn genedlaethol.<br>Mae gwaith trawsadrannol i fynd i'r afael â'r argyfwng Costau Byw wedi datblygu dull cryfach a mwy integredig o fewn y Cyngor ac mae wedi cydgrynhoi a nodi'n well yr hyn yr ydym yn ei wneud, y gallwn ei wneud ac sydd angen i ni ei wneud. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 6 | **Incwm Wythnosol Gros Canolrifol** | **£617.80** **(2022)** | Dim targed | **£678.60** **(2023)** | Amherthnasol | ▲ | **£636.10** | **£646.00** | **** |
| | | Mae'r data diweddaraf ar gyfer hyn yn dangos cynnydd sylweddol yn yr enillion wythnosol gros cyfartalog yn Sir Gaerfyrddin, o £617.80 (2022) i £678.60 (2023) gyda'r ffigurau ail uchaf yng Nghymru. Mae ffigurau Sir Gaerfyrddin wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r bwlch wedi cynyddu'n sylweddol, gyda chyfartaledd Cymru ar hyn o bryd yn £636.10. Rydym yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU o £681.70, ond mae'r gwahaniaeth yn lleihau'n araf. Mae'r bwlch yn y gyfradd fesul awr rhwng gweithwyr amser llawn gwrywaidd a benywaidd yn cau, gyda'r gyfradd fesul awr i fenywod yn uwch nag i weithwyr gwrywaidd mewn pum awdurdod gan gynnwys Sir Gaerfyrddin. Mae ein henillion fesul awr gros ar gyfer gweithwyr amser llawn benywaidd £1.72 yn fwy na gweithwyr gwrywaidd, mae hyn wedi cynyddu o 62c yn 2022.<br>Mae enillion yn cael effaith uniongyrchol ar fywyd unigolyn, gan effeithio ar bob penderfyniad a wneir. Mae hyn yn mynd yn arbennig o anodd os nad yw enillion unigolyn yn caniatáu iddo ddiwallu ei anghenion sylfaenol a chaiff hyn ei waethygu os nad yw twf cyflog yn cyd-fynd â chyfradd chwyddiant, ac mae llawer yn wynebu effeithiau hyn ar hyn o bryd.<br>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynorthwyo pobl i wneud y mwyaf o'u hincwm a chael mynediad at y cymorth y mae ganddynt hawl iddo. | | | | | | | |
| 7 | **Cymhareb Fforddiadwyedd Tai**<br><br>*Mae rhannu'r pris tŷ ar gyfer ardal benodol yn ôl ei henillion, yn creu cymhareb sy'n gweithredu fel dangosydd o fforddiadwyedd cymharol. Mae cymhareb uwch yn dangos, ar gyfartaledd, ei bod yn llai fforddiadwy i breswylydd brynu tŷ yn ardal ei awdurdod lleol. I'r gwrthwyneb, mae cymhareb is yn dynodi fforddiadwyedd uwch mewn awdurdod lleol.* | **5.67 Cymhareb** **(2022)** | Dim targed | **5.32** **Cymhareb** **(2023)** | Amherthnasol | ▲ | **6.07** **Cymhareb** | **5.25** **Cymhareb** | **** |
| | | Cymhareb bresennol Sir Gaerfyrddin yw 5.32 sy'n sylweddol is na'r gymhareb uchaf yng Nghymru sef 9.67. ac yn is o ddigon na chyfartaledd Cymru o 6.07. Dyma'r seithfed lefel isaf o blith yr holl awdurdodau lleol yn 2023. Er bod cynnydd wedi'i weld dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n ymddangos ei fod bellach yn lleihau. Dylid nodi y bydd fforddiadwyedd tai yn amrywio rhwng ardaloedd llai o fewn y sir.<br>Mae mynediad at dai fforddiadwy yn bwysig gan ei fod yn arwain at welliannau mewn iechyd a llesiant corfforol a meddyliol. O'i roi'n syml, po fwyaf fforddiadwy yw tai, y mwyaf o arian sydd gan aelwydydd i'w wario ar y pethau eraill sydd eu hangen arnynt, sydd yn ei dro yn gwella ansawdd eu bywyd. Nododd trigolion mewn ymgynghoriad diweddar ei bod yn bwysig bod pobl leol yn cael cefnogaeth i brynu tai'n lleol. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 8 | **Aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag digartrefedd (PAM/012)** | **71.6%** | 72.0% | **72.1%** | ☺ | ▲ | **59.0% (2022/23)** | **61.5% (2022/23)** | **** |
| | | Mae'r perfformiad da yn parhau ac wedi'i gyflawni drwy nifer o ffactorau gan gynnwys creu Tîm Hwb Tai, newidiadau i arferion gweithredol, dyrannu cartrefi yn uniongyrchol i bobl sydd â'r angen mwyaf drwy fabwysiadu'r Polisi Dyrannu Tai Brys, a pharhad cyllid grant gan Lywodraeth Cymru. Mae'r data cymharol atal digartrefedd diweddaraf (2022/23) yn dangos safle llawer gwell o 4ydd o'i gymharu â 14eg yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn er bod gan y sir y 3ydd nifer uchaf o aelwydydd dan fygythiad o ddigartrefedd yn ystod 2022/23 sef 630. Mae ein canlyniad gwell wedi mynd â ni'n uwch na chyfartaledd Cymru am y tro cyntaf ers 2016/17. | | | | | | | |
| 9 | **Preswylwyr sy'n credu bod tlodi yn broblem yn fy ardal**<br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog (SMG): Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.* | **0.23 (Sgôr SMG)** | Dim targed | **0.24 (Sgôr SMG)** | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Derbyniodd ein harolwg trigolion 2023 bron i 4,000 o ymatebwyr, ac roedd yr ymatebion i'r datganiad yn gymysg. Fodd bynnag, mae cyfran uwch yn gyffredinol yn cytuno bod tlodi yn broblem yn eu hardal gyda Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS) o 0.24. Mae hyn yn ostyngiad bach ar sgôr 2022 o 0.23 ond mae'n parhau i fod yn gytundeb cyffredinol. | | | | | | | |
| 10 | **Amser cyfartalog ar gyfer prosesu hawliadau Budd-dal y Dreth Gyngor/Tai newydd (6.6.1.2)** | **18.46 diwrnod** | 17 diwrnod | **13 diwrnod** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Mae nifer cyfartalog y diwrnodau i brosesu Hawliadau Budd-dal y Dreth Gyngor/Tai newydd wedi gostwng yn sylweddol yn ystod 2023/24 i 13 diwrnod, sydd bron yn ôl i lawr i ganlyniadau cyn covid. | | | | | | | |
| 11 | **Amser cyfartalog ar gyfer prosesu hysbysiadau o newidiadau mewn amgylchiadau o ran Budd-dal y Dreth Gyngor/Tai (6.6.1.3)** | **3.62 diwrnod** | 4 diwrnod | **3.02 diwrnod** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Mae nifer cyfartalog y diwrnodau i brosesu newid mewn amgylchiadau o ran Budd-dal y Dreth Gyngor/Tai wedi gostwng ychydig yn ystod 2023/24 i ychydig dros 3 diwrnod ac o fewn y targed yn gyffyrddus. | | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod DP</th><th>2022/23 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2023/2024 neu fwyaf diweddar</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Canlyniad Gwirioneddol</th><th>Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹</th><th>A wnaethom ni wella ▲ neu ▼</th><th>Cyfartaledd Cymru</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td rowspan="2">12</td><td rowspan="2">Nifer yr unigolion a gefnogwyd drwy gynlluniau cyflogadwyedd y Cyngor i ennill cyflog byw gwirioneddol (EconD/023)</td><td>204</td><td>200</td><td>158</td><td>☹</td><td>▼</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cafodd 158 o unigolion eu cefnogi drwy gynlluniau cyflogadwyedd y Cyngor i ennill y cyflog byw gwirioneddol yn ystod 2023/24, ac mae hwn yn ostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, sef 204. Roedd llawer o'r cleientiaid a gefnogwyd yn dal i dderbyn cyngor ac arweiniad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gan eu bod yn wynebu sawl rhwystr a chan fod ganddynt anghenion cymhleth. Felly, mae angen cymorth ychwanegol cyn iddynt gael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth.</td></tr>
<tr><td colspan="10">Amcan Llesiant 2b - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Tai</td></tr>
<tr><td rowspan="2">13</td><td rowspan="2">Nifer y diwrnodau calendr cyfartalog a gymerir i gwblhau'r holl atgyweiriadau tai (PAM/037)</td><td>6.3 diwrnod</td><td>10 niwrnod</td><td>27.6 diwrnod</td><td>☹</td><td>▼</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Ar gyfartaledd, cymerwyd 27.6 diwrnod calendr i gwblhau'r holl atgyweiriadau i dai cyngor yn ystod 2023/24, ac roedd hwn yn gynnydd dramatig ar gyfartaledd y flwyddyn flaenorol, sef 6.3 diwrnod.  Y prif reswm oedd targedu a chlirio hen waith oedd wedi cronni gan nad oedd modd ei gwblhau yn ystod Covid, yn ogystal â diffyg deunyddiau a chapasiti'r contract.<br>Mae'r sefyllfaoedd hyn wedi gwella erbyn hyn, ac mae'r ôl-groniad o hen waith wedi cael ei glirio i raddau helaeth. Mae nifer y ceisiadau atgyweirio hefyd yn parhau i godi flwyddyn ar ôl blwyddyn.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">14</td><td rowspan="2">Nifer yr eiddo gwag sector preifat a ddychwelwyd i'w ddefnyddio drwy ymyrraeth uniongyrchol (HS-EMP/001)</td><td>143 eiddo</td><td>167 eiddo</td><td>104 eiddo</td><td>☹</td><td>▼</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau wedi canolbwyntio ar Gynllun Grant Cenedlaethol Cymru ac wedi'u targedu at berchnogion tai gwag a fydd yn dod yn ddeiliaid. Mae'n drwm iawn o ran adnoddau heb fawr o wobr am yr ymyrraeth, yn enwedig tua diwedd 2023/24, yn ystod y flwyddyn cafwyd 199 o ymholiadau ar gyfer y cynllun gyda 52% yn cael eu canslo (ar wahanol gamau), o'r 116 a arolygwyd dim ond 43 (37%) a gymeradwywyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ond rydym wedi ymrwymo hyd at £2.6m o gyllid. Yn anffodus, ni chyrhaeddwyd y targed ar gyfer 2023/24 ond bydd y rhain yn cael eu cynnwys ym mherfformiad 2024/25 trwy gwblhau grantiau neu pan gânt eu dychwelyd i'w defnyddio lle nad ydynt wedi bwrw ymlaen â'r grant ond wedi cael cyngor. Mae'r rhan fwyaf o'r Cynllun Grant Cenedlaethol wedi cael ei gwblhau a bydd angen ei fonitro yn dilyn cymeradwyaeth Rhondda Cynon Taf a sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r dyraniad grant llawn a'r incwm (ffioedd). Gyda'r Swyddogion Cymorth Tai Gwag ychwanegol bellach yn eu lle (Mawrth/Ebrill 2024) a chyflwyno premiymau'r Dreth Gyngor, byddwn yn ailffocysu ein sylw ar waith gorfodi i adennill dyledion a gorfodi ailddefnyddio cartrefi gwag.</td></tr>
</table>

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 15 | % y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag (PAM/039) | **3.5%** | 2.6% | **2.2%** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Mae % y rhent a gollwyd oherwydd bod eiddo'n wag bellach wedi gostwng yn ôl i lefel fwy derbyniol o 2.2%, o gymharu â 3.5% y flwyddyn flaenorol. Mae nifer o newidiadau wedi cael eu cyflwyno dros y 21 mis diwethaf i hybu gwelliant e.e. safon newydd ar gyfer gosod. Byddwn yn parhau i roi camau gwella pellach ar waith dros y misoedd nesaf, fel y nodir yn ein Cynllun Gweithredu Tai Gwag ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gwella. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 2c - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Gofal Cymdeithasol** | | | | | | | | | |
| 16 | Nifer y bobl sy'n aros yn yr ysbyty am ofal cartref (ASC/001) | **35** o bobl ar ddiwedd Mawrth 2023 | Dim targed | **7** o bobl ar ddiwedd Mawrth 2024 | Amherthnasol | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Mae nifer y bobl sy'n aros yn yr ysbyty am ofal cartref yn amrywio yn ystod y flwyddyn ac mae'n ffigur 'fel y mae' a ddangosir ar ddiwedd pob mis. Ddiwedd mis Mawrth 2024, roedd 7 o bobl yn aros yn yr ysbyty am ofal cartref, mae hwn yn welliant ar y ffigwr o 35 ar ddiwedd Mawrth 2023. | | | | | | | |
| 17 | % y bobl a gyfeiriwyd at y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff sy'n cwblhau'r rhaglen 16 wythnos (PAM/041) | **51.8%** | 50.0% | **70.2%** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Mae nifer yr atgyfeiriadau i'r rhaglen ymarfer corff wedi cynyddu'n ddramatig, gyda 1,537 wedi dod i law yn ystod 2023/24, sef yr uchaf ers i'r cynllun ddechrau. Yn anffodus, hyn a hyn sy'n cael mynychu'r cynllun oherwydd adnoddau, gydag ychydig dros 36% yn ystod 2023/24. Y newyddion cadarnhaol yw bod dros 70% (316/450) o'r rhai a ddechreuodd y cynllun wedi cwblhau'r rhaglen 16 wythnos yn ystod 2023/24, a dyma'r gyfradd gwblhau uchaf ers dechrau cofnodi data. | | | | | | | |
| 18 | Nifer y diwrnodau calendr, ar gyfartaledd, a gymerir i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG/001) | 277 niwrnod | 275 niwrnod | **273 diwrnod** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Er bod y nifer cyfartalog o ddiwrnodau i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn unol â'r targed ac yn dangos gwelliant bach iawn yn ystod 2023/24, mae'r canlyniad yn parhau i fod yn uchel sef 273 diwrnod. Roedd cynnydd o 14% yn nifer yr addasiadau gwblhawyd yn y flwyddyn o gymharu â 2022/23. Mae'r galw am addasiadau'n fawr, ac mae angen gwaith ar gyfer anghenion mwy cymhleth. | | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="11">Amcan Llesiant 3 - Galluogi ein cymunedau a'n hamgylchedd i fod yn iach, yn ddiogel ac yn ffyniannus (Cymunedau Ffyniannus)</th></tr>
<tr><th colspan="11">Ein Cyfres Ddata Gorfforaethol gyda'n Dangosyddion a'n Mesurau Llwyddiant - 2023/24</th></tr>
<tr><td colspan="2" rowspan="2"></td><td rowspan="2">Pa mor dda yr ydym wedi ei wneud?</td><td colspan="8">Pa mor dda ydym yn ei wneud?</td></tr>
<tr><td colspan="5">Gweler esboniad o'r perfformiad</td><td colspan="3">Gwybodaeth Gymharol Cymru Gyfan</td></tr>
<tr><td colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod DP</td><td>2022/23 neu ganlyniad blaenorol</td><td colspan="8">2023/2024 neu fwyaf diweddar</td></tr>
<tr><td>Ein Canlyniad</td><td>Targed</td><td>Canlyniad Gwirioneddol</td><td>Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹</td><td>A wnaethom ni wella ▲ neu ▼</td><td>Cyfartaledd Cymru</td><td>Chwartel Gorau Cymru</td><td>Sut rydym yn cymharu yng Nghymru *<sub>i</sub> ****</td></tr>
<tr><td colspan="11">Amcan Llesiant 3 - Trosfwaol</td></tr>
<tr><td rowspan="2">1</td><td rowspan="2">Incwm Gwario Gros Aelwydydd y pen<br><br>Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd yn amcangyfrif o faint o arian sydd gan aelwyd i'w wario ar nwyddau a gwasanaethau ac i'w gynilo.</td><td>£16,735 (2020)</td><td>Dim targed</td><td>£17,419 (2021)</td><td>Amherthnasol</td><td>▲</td><td>£18,038</td><td>£18,429</td><td>**</td></tr>
<tr><td colspan="8">Mae Incwm Gwario Aelwydydd yn codi ond mae'r lefelau'n parhau i fod yn is na'r Cyfartaleddau Cenedlaethol. Yn 2021, gwelwyd twf o 3.7% mewn incwm gwario gros aelwydydd y pen yn y DU o gymharu â 2020; mae hyn yr un peth yn Lloegr, tra bo Gogledd Iwerddon wedi gweld twf o 4.0%. O blith gwledydd y DU, Cymru welodd y twf uchaf gyda 4.9%, tra bo'r isaf yn Yr Alban gyda 2.4%. Er bod ganddi'r ganran uchaf o ran twf, gan Gymru mae'r gyfradd ail isaf o blith gwledydd y DU sef £18,038, y tu ôl i Ogledd Iwerddon gyda £17,636.<br>Er i Sir Gâr weld cynnydd o 4.1% dros yr un cyfnod i £17,419 yn 2021, er bod hyn yn gadarnhaol, mae'r lefel hon yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o £18,038 ac mae'n sylweddol is na chyfartaledd y DU o £21,679.<br>Mae chwyddiant yn dal i fod yn uchel, ac mae'r cynnydd mwyaf wedi bod mewn eitemau hanfodol megis bwyd a chyfleustodau. Mae hyn yn golygu bod pobl yn talu mwy am yr eitemau hyn pan nad yw eu hincwm gwario, yn y rhan fwyaf o achosion, yn cynyddu ar yr un gyfradd. Mae hyn yn rhoi pwysau ar aelwydydd ac yn y pen draw gall arwain at ddirywiad mewn safonau byw, gan effeithio ar iechyd, diogelwch a ffyniant.<br>Er bod hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r dulliau cymorth a nodir yn Amcan Llesiant 2, mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan yr economi leol i'w chwarae yn hyn o beth, wrth roi cyfleoedd i bobl leol gael gwybodaeth ystyrlon neu gymorth i wella eu siawns o gael gwaith gymaint ag y bo modd.</td></tr>
</table>

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 2 | **Nifer y bobl a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar y ffyrdd** | **83** o bobl (2022) | Dim targed | **138** o bobl (2023) | Amherthnasol | ▼ | **1,126** Cyfanswm Cymru | **25** o bobl | * |
| | | Yn ystod 2023, yn anffodus cafodd 138 o bobl eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin, dyma'r ffigwr ail uchaf yng Nghymru ar ôl Powys gyda 153 ac mae'n gynnydd o 66% ar ffigyrau 2022. Roedd cynnydd o 59% yn nifer y beicwyr modur a laddwyd neu a anafwyd, o 17 yn 2022 i 27 yn 2023, ac roedd y cynnydd uchaf ar gyfer y rhai 16-24 oed sef 76%, o 17 yn 2022 i 30 yn 2023, a dyma'r nifer uchaf yng Nghymru. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wneud ffyrdd y Sir yn fwy diogel drwy weithio mewn partneriaeth gryfach i godi ymwybyddiaeth, addysgu a hyfforddi pob math o ddefnyddwyr ffyrdd er mwyn gwella sgiliau ac ymddygiad. | | | | | | | |
| 3 | **Lefelau llygredd nitrogen deuocsid yn yr aer.**<br>*Mae'r mesur hwn yn rhoi syniad o ansawdd yr aer trwy roi crynodiad cyfartalog o lygryddion yn yr aer.* | **4.2** (µg/m3) (2020) | Dim targed | **4.3** (µg/m3) (2021) | Amherthnasol | ▼ | **6.9** (µg/m3) | **4.1** (µg/m3) | *** |
| | | Ar ôl cyfnod cadarnhaol o leihad mewn lefelau Nitrogen Deuocsid yn yr aer yn Sir Gaerfyrddin yn y blynyddoedd diwethaf, yn anffodus mae cynnydd bach wedi bod o 4.2 (µg/m3) yn 2020 i 4.3 (µg/m3) yn 2021. Mae hyn yn cymharu'n gadarnhaol â chyfartaledd Cymru o 6.9 (µg/m3), ac mae gan y sir bellach yr 8fed lefel isaf o blith holl awdurdodau lleol Cymru.<br>Mae nitrogen deuocsid yn un o sawl llygrydd mawr ac mae'n cael ei ryddhau i'r aer trwy losgi tanwydd. Mae'r llygryddion hyn nid yn unig yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar iechyd pobl, maent hefyd yn gwaethygu'r argyfyngau hinsawdd a natur yr ydym yn eu hwynebu. | | | | | | | |
| 4 | **Cyfraddau troseddu** | **16,381** o droseddau | Dim targed | **14,024** o droseddau | Amherthnasol | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Mae cyfanswm troseddau yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng dros 14% yn ystod 2023/24 i 14,024, o gymharu â 16,381 yn ystod 2022/23. Y math uchaf o drosedd o hyd yw Trais yn erbyn yr Unigolyn sef 48% o gyfanswm y troseddau. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 3a - Blaenoriaeth Thematig - Adferiad a Thwf Economaidd** | | | | | | | | | |
| 5a | **Cyfraddau Cyflogaeth** | **71.7 (Mawrth 2023)** | Dim targed | **72.0 (Mawrth 2024)** | Amherthnasol | ▲ | **73.5 (Mawrth 2024)** | **76.0 (Mawrth 2024)** | ** |
| | | Mae ffigurau cyflogaeth wedi cynyddu ychydig yn Sir Gaerfyrddin, ac ar ddiwedd Mawrth 2024 roedd yn 72.0% o gymharu â 71.7% ar ddiwedd Mawrth 2023. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU o 73.5% a 75.4%. | | | | | | | |
| 5b | **Cyfraddau Diweithdra**<br>*Mae person yn ddi-waith os yw'n chwilio am waith neu ar gael ar gyfer gwaith* | **2.9% (Mawrth 2023)** | Dim targed | **3.0% (Mawrth 2024)** | Amherthnasol | ▼ | **3.5% (Mawrth 2024)** | Amherthnasol | |
| | | Mae ffigurau Diweithdra wedi cynyddu ychydig yn Sir Gaerfyrddin, ac ar ddiwedd Mawrth 2024 roedd yn 3.0% o gymharu â 2.9% ar ddiwedd Mawrth 2023. Mae hyn yn well na chyfartaledd Cymru a'r DU o 3.5% a 3.8%. | | | | | | | |
| 6a | **Oedolion o Oedran Gweithio wedi'u cymhwyso i Lefel 4 neu uwch** | **40.0%** | Dim targed | **46.3%** | Amherthnasol | ▲ | **45.0%** | **47.4%** | *** |
| | | Mae cyfran y rhai 18-64 oed sydd wedi'u cymhwyso i Lefel 4 neu uwch yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i gynyddu. Mae'r data diweddaraf (Rhagfyr 2023) yn dangos gwelliant pellach i 46.3%, sy'n cymharu'n gadarnhaol â chyfartaledd Cymru sef 45.0%. Mae datblygu sgiliau a chymwysterau yn gwella cyflogadwyedd, yn rhoi hwb i ragolygon gyrfa ac yn creu marchnad lafur fedrus a galluog iawn. Mae hefyd yn sicrhau bod gennym weithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol. | | | | | | | |
| 6b | **Oedolion o Oedran Gweithio heb Gymwysterau** | **7.0%** | Dim targed | **5.3%** | Amherthnasol | ▲ | **7.9%** | **5.5%** | **** |
| | | Mae cyfran y rheiny sydd rhwng 18 a 64 oed ac sydd heb unrhyw gymwysterau wedi bod ar duedd ar i lawr yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r data diweddaraf (Rhagfyr 2023) yn dangos gostyngiad pellach i 5.3%, sy'n cymharu'n gadarnhaol â chyfartaledd Cymru sef 7.9%. Mae Sir Gâr ar y trywydd iawn o ran cyrraedd Carreg Milltir Dangosydd Llesiant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru - *'bydd canran yr oedolion o oedran gweithio sydd heb unrhyw gymwysterau yn 5% neu lai ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru erbyn 2050'.* Mae datblygu sgiliau a chymwysterau yn gwella cyflogadwyedd, yn rhoi hwb i ragolygon gyrfa ac yn creu marchnad lafur fedrus a galluog iawn. Mae hefyd yn sicrhau bod gennym weithlu sy'n addas ar gyfer y dyfodol. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 7a | **Genedigaethau busnes** | **820** **(2021)** | Dim targed | **630** **(2022)** | Amherthnasol | ▼ | **12,090** (Cyfanswm Cymru) | **675** | *** |
| | | Yn dilyn rhywfaint o farweidd-dra rhwng 2017 a 2019, dangosodd cyfraddau genedigaethau busnes yn y sir arwyddion o welliant yn ystod 2021 gyda 820 o enedigaethau busnes, ond byrhoedlog oedd hwn. Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2022 yn dangos bod 630 o fusnesau wedi agor/dechrau, sydd 190 yn is na'r flwyddyn flaenorol. Mae effaith yr argyfyngau economaidd a'r biliau ynni uchel wedi effeithio ar lawer o fusnesau ac yn ddigon i atal pobl rhag agor busnesau newydd.<br>Gwelwyd y nifer fwyaf o fusnesau newydd yn y sector Adeiladu gyda 115 (o gymharu â 150 y flwyddyn flaenorol), ac yna Trafnidiaeth a Storio a'r Gwasanaethau Llety a Bwyd gydag 85 yr un, sydd llawer is na'r blynyddoedd blaenorol pryd roeddent yn 155 a 110. | | | | | | | |
| 7b | **Marwolaethau busnes** | **650** **(2021)** | Dim targed | **700** **(2022)** | Amherthnasol | ▼ | **11,660** (Cyfanswm Cymru) | **335** | * |
| | | Yn anffodus, mae'n ymddangos bod cynnydd parhaus yn nifer y marwolaethau busnes o 490 yn 2020, 650 yn 2021, a 700 yn 2022, sef y nifer uchaf ers 2017. O effaith Covid i'r argyfyngau economaidd, biliau ynni hynod uchel, a recriwtio staff, mae'r rhain i gyd yn golygu bod rhedeg busnes yn heriol iawn. Sir Gaerfyrddin sydd â'r 6ed nifer uchaf o farwolaethau busnes o bob awdurdod yng Nghymru y tu ôl i Gaerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe, Sir y Fflint a Chasnewydd. | | | | | | | |
| 8 | **Nifer y Swyddi Uniongyrchol a grëwyd (gan gynnwys swyddi mewn lleoliad newydd a phobl wedi'u rhoi mewn swyddi) gyda chymorth Adfywio (EconD/009)** | **1,350** | 858 | **669** | ☹ | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | 669 o swyddi uniongyrchol wedi'u creu ar draws Sir Gaerfyrddin gyda chymorth Adfywio yn ystod 2023/24, er bod hyn yn newyddion da, ni chyrhaeddwyd y targed, a'r rhesymau dros hyn yw oedi cyn cychwyn a chwblhau rhai cynlluniau grant trydydd parti, ond daw'r rhain i ffrwyth yn ystod 2024/25. | | | | | | | |
| 9 | **Nifer y Swyddi Anuniongyrchol a grëwyd (swyddi anuniongyrchol a swyddi ym maes adeiladu) gyda chymorth Adfywio (EconD/010)** | **116** | 387 | **286** | ☹ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | 286 o swyddi adeiladu anuniongyrchol wedi'u creu trwy Llain 3 Cross Hands, Pentre Awel, Benthyciad Canol y Dref, Prosiectau Strategol Trawsnewid Trefi, Hwb Caerfyrddin, Neuadd Farchnad Llandeilo, Cronfa Datblygu Adfywio Rhydaman (ARDF) a Chronfa Menter Wledig Sir Gaerfyrddin (CREF), mae hyn yn llai na'r disgwyl am y flwyddyn. Mae oedi cyn cychwyn cyflawni uniongyrchol sylweddol a phrosiectau adeiladu trydydd parti a ariennir gan grant wedi arwain at fethu'r targed. Bydd allbynnau nawr yn cael eu gwireddu yn 2024/25. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 10 | **Nifer y bobl rhoddwyd cymorth iddynt i wirfoddoli gyda chymorth Adfywio (EconD/005)** | **759** | 555 | **722** | ☺ | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Cynorthwywyd 722 o bobl i wirfoddoli gyda chymorth Adfywio trwy'r Biwro, C4W+, Cronfa Buddsoddi Gwledig y Gronfa Ffyniant Gyffredin, Sgiliau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a Gweithio Sir Gaerfyrddin. | | | | | | | |
| 11 | **Nifer yr wythnosau o recriwtio a hyfforddi a ddarperir i bobl drwy Fudd i'r Gymuned ym mhrosiectau Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, Tai ac Adfywio (CP/001)** | **1,628** | 3,229 | **3,595** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Cyflawnwyd 3,595 wythnos o recriwtio ar gyfer hyfforddiant drwy Fudd i'r Gymuned yn ystod 2023/24, ac mae hyn ymhell uwchlaw'r targed a thros ddwbl y swm ar gyfer 2022/23 o 1,628. | | | | | | | |
| 12 | **Lefel buddsoddiad y Sector Preifat / cyllid allanol a sicrhawyd (£)(EconD/008)** | **£11,903,638** | £31,580,893 | **£35,039,140** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Sicrhawyd dros £35m o gyllid yn ystod 2023/24 gan Datblygu Economaidd trwy Fuddsoddiad Sector Preifat ac amrywiol geisiadau llwyddiannus am gyllid allanol.  Dyma gamp a hanner. | | | | | | | |
| 13 | **Nifer y tai fforddiadwy ychwanegol yn y Sir (7.3.2.24)** | **323** | 303 | **331** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Mae ein cynllun yn pennu'r weledigaeth i gefnogi'r gwaith o ddarparu dros 2000 o dai i'w rhentu a'u gwerthu dros y 5 mlynedd nesaf (Chwef 2022-Rhag 2027). Mae'r cynllun yn seiliedig ar ddiwallu angen tai ac ysgogi twf economaidd ledled y Sir gan greu swyddi, adeiladu cymunedau cynaliadwy cryf, a thyfu'r economi werdd. Roedd y rhaglen ar gyfer 2023/24 yn canolbwyntio ar brynu cartrefi sector preifat ar gyfer anghenion cyffredinol ac arbenigol o ran tai, gan ailddefnyddio tai gwag a datblygu cartrefi newydd, yn cynnwys trosi hen swyddfeydd y cyngor sir yn Heol Spilman yn 12 fflat.  Roedd canlyniad 2023/24 o 331 o dai fforddiadwy ychwanegol yn fwy na'r targed, gan fod 654 eiddo wedi'u darparu ers Ebrill 2022. | | | | | | | |
| 14 | **Cefnogir busnesau o fewn yr ardal leol**<br><br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog:  Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.* | **-0.01 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Dim targed | **-0.24 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Cafodd ein harolwg trigolion 2023 bron i 4,000 o ymatebwyr, a bu i'r gyfran fwyaf o ymatebwyr nodi 'y naill na'r llall' neu 'ddim yn gwybod' ar gyfer y datganiad hwn. Mae hyn yn awgrymu naill ai nad oedd ymatebwyr yn teimlo eu bod yn y sefyllfa orau i ateb gan nad ydynt o bosib yn berchen ar fusnes, neu nad ydynt yn ymwybodol o'r modd y cefnogir busnesau yn y sir. Gwelir, o ddadansoddi ymhellach a hepgor y rhai a atebodd 'y naill na'r llall' neu 'ddim yn gwybod', fod y lefelau a oedd yn anghytuno yn uwch na'r lefelau a oedd yn cytuno. Mae dadansoddiad pellach yn dangos bod sgoriau ar eu hisaf ar gyfer ardal gymunedol Llanelli. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â chanfyddiad trigolion o ganol trefi a'r diffyg buddsoddiad canfyddedig a gaiff yr ardaloedd hynny. | | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod DP</th><th>2022/23 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2023/2024 neu fwyaf diweddar</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Canlyniad Gwirioneddol</th><th>Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹</th><th>A wnaethom ni wella ▲ neu ▼</th><th>Cyfartaledd Cymru</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td rowspan="2">15</td><td rowspan="2">Caiff pobl leol eu cefnogi'n dda i fanteisio ar gyfleoedd lleol<br><br>Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog: Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.</td><td>-0.05 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)</td><td>Dim targed</td><td>-0.16 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)</td><td>Amherthnasol</td><td>▼</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cafwyd bron 4,000 o ymatebwyr i'n harolwg trigolion 2023, a nododd cyfran sylweddol o'r ymatebwyr 'y naill na'r llall' pan ofynnwyd iddynt a ydynt yn teimlo bod pobl leol yn cael eu cefnogi'n dda i fanteisio ar gyfleoedd lleol. Roedd safbwyntiau pellach yn gymysg gydag ychydig mwy o bobl yn anghytuno nag yn cytuno. Mae dadansoddiad pellach yn dangos bod sgoriau ar eu hisaf ar gyfer ymatebwyr yn byw yn ardal gymunedol Llanelli. Yn ogystal, roedd sgoriau is ar gyfer ymatebwyr â chyfrifoldebau gofalu, y rhai ag incwm aelwyd o lai na £30,000 y flwyddyn, a feteraniaid.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">16</td><td rowspan="2">% y ceisiadau mawr y penderfynwyd arnynt o fewn cyfnodau amser gofynnol (PLA/009)</td><td>72.4%</td><td>80.0%</td><td>69.7%</td><td>☹</td><td>▼</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Nid yw canlyniad 2023/24 yn cydymffurfio â'r targed ac mae'n dangos dirywiad mewn perfformiad o gymharu â 2022/23. Mae penderfynu ar 10 achos hanesyddol yn effeithio ar y canlyniad cyffredinol. Dylid nodi mai 60% yw sgôr Llywodraeth Cymru o 'Da'. Bydd aildrefnu'r gwasanaeth mewn modd y cytunwyd arno sy'n canolbwyntio ar ddatblygu strategol yn helpu i gyrraedd y targed ar gyfer y mesur hwn.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">17</td><td rowspan="2">% yr anfonebau diddadl a dalwyd mewn 30 diwrnod (CFH/006)</td><td>95.6%</td><td>95.0%</td><td>94.9%</td><td>☹</td><td>▼</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Talwyd ychydig llai na 95% o anfonebau o fewn 30 diwrnod yn ystod 2023/24, mae hyn oddi ar y targed ac i lawr ar 2022/23, ond bu cynnydd o 5% yn nifer yr anfonebau a dalwyd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Caiff adroddiadau eu dosbarthu i bob rheolwr cymorth busnes adrannol i'w hadolygu. Dylid mynd i'r afael â'r meysydd hynny nad ydynt yn cyrraedd y targed ac ymchwilio ymhellach iddynt.</td></tr>
<tr><th colspan="10">Amcan Llesiant 3b - Blaenoriaeth Thematig - Datgarboneiddio / Argyfwng Hinsawdd a Natur</th></tr>
<tr><td rowspan="2">18</td><td rowspan="2">Cynhyrchu Ynni Carbon Isel yn ôl Awdurdod Lleol (mewn MW).</td><td>324 MW o ynni</td><td>Dim targed</td><td>333 MW o ynni</td><td>Amherthnasol</td><td>▲</td><td>4,349 MW o ynni i Gymru</td><td>258 MW o ynni</td><td>****</td></tr>
<tr><td colspan="8">Sir Gaerfyrddin yw un o'r siroedd mwyaf rhagweithiol yng Nghymru o ran buddsoddi mewn prosiectau ynni carbon isel. Mae hyn yn gadarnhaol ac yn cadarnhau'r dull blaengar y mae'r sir yn ei fabwysiadu o ran mynd i'r afael â'r bygythiadau a achosir gan yr argyfyngau hinsawdd a natur.<br>Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2022 yn dangos bod cyfanswm o 8,104 o brosiectau yn Sir Gaerfyrddin yn cynhyrchu 333MW o ynni. Dyma'r drydedd lefel uchaf yng Nghymru ac mae'n gynnydd ar ffigurau 2021.</td></tr>
</table>

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Ein Canlyniad** | **Targed** | **Canlyniad Gwirioneddol** | **Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹** | **A wnaethom ni wella ▲ neu ▼** | **Cyfartaledd Cymru** | **Chwartel Gorau Cymru** | **Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i ****** |
| 19 | **Nifer yr eiddo (cartrefi a busnesau) mewn <u>perygl canolig neu fawr</u> o lifogydd o afonydd, y llanw neu ddŵr wyneb** | **Ddim ar gael** | Dim targed | **5,443 eiddo** | Amherthnasol | | **286,170 Eiddo yng Nghymru** | **2,339 eiddo** | * |
| | | Mae llifogydd bob amser yn bryder yn Sir Gaerfyrddin, ac yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru (2019), mae dros 15,000 o fusnesau a chartrefi mewn perygl o lifogydd o afonydd, llanw neu ddŵr wyneb, gyda dros 5,400 o'r rhain mewn perygl canolig neu uchel. Mae bygythiad cynyddol yr argyfyngau hinsawdd a natur yn rhoi mwy o bwyslais ar yr angen am amddiffynfeydd llifogydd addas a chymesur i ddiogelu'r rheiny sy'n wynebu'r perygl mwyaf. Drwy Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr a Chynllun Rheoli Traethlin y Cyngor mae nifer o ymyriadau wedi'u cwblhau, gan gynnwys gosod amddiffynfeydd newydd a gwella'r amddiffynfeydd presennol. Yn ôl yr Arolwg Cenedlaethol mae lefel y pryder am lifogydd a fynegwyd gan ymatebwyr Sir Gaerfyrddin wedi cynyddu o 36.2% yn 2018/19 i 49.3% yn 2022/23. Mae hwn yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 44.7%. | | | | | | | |
| 20 | **Mae'r Argyfwng Hinsawdd yn cael sylw lleol**<br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog: Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.* | **-0.10 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Dim targed | **-0.05 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Amherthnasol | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Cafodd ein harolwg trigolion 2023 bron i 4,000 o ymatebwyr, a bu i'r gyfran fwyaf o ymatebwyr nodi 'y naill na'r llall' pan ofynnwyd a yw'r argyfwng hinsawdd yn cael sylw'n lleol. O ddadansoddi ymhellach ac eithrio'r rhai a atebodd 'y naill na'r llall', mae mwy o bobl yn anghytuno na chytuno. Gallai hyn awgrymu nad yw pobl yn ymwybodol o unrhyw fesurau a osodwyd i fynd i'r afael ag un o broblemau mwyaf dybryd ein hoes. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 3c - Blaenoriaeth Thematig - Y Gymraeg a Diwylliant** | | | | | | | | | |
| 21 | **% yr holl drigolion arferol 3 oed a hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg** | **43.9% (Cyfrifiad 2011)** | Dim targed | **39.9% (Cyfrifiad 2021)** | Amherthnasol | ▼ | **17.8%** | **21.2%** | **** |
| | | Roedd canlyniadau Cyfrifiad 2021 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022 yn dangos gostyngiad pellach yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Sir Gaerfyrddin, i lawr i 39.9% o'r boblogaeth, sy'n cyfateb i 72,838 o siaradwyr Cymraeg. Yr unig grŵp oedran sydd wedi gweld cynnydd bach iawn yw'r rhai rhwng 25 a 34 oed, gyda gostyngiadau i'w gweld ym mhob categori oedran arall. Mae'r gostyngiad mwyaf sylweddol yn nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ar gyfer pobl 65-74 oed, gyda gostyngiad o 9.4 pwynt canran, ond mae pob grŵp oedran dros 65 yn dangos cwymp mawr. Gwelwyd gostyngiad ymhob awdurdod lleol yng nghanran plant rhwng 3 a 15 oed y dywedir y gallant siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021 (gweler y manylion isod).<br>Mae ein 'Strategaeth i hyrwyddo'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin 2023-28' yn nodi'r hyn sydd angen ei wneud i adfer y Gymraeg yn y sir drwy gynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg, cynyddu'r sefyllfaoedd lle gall pobl siarad Cymraeg, codi statws yr iaith, cefnogi cymunedau i gynnal yr iaith a thrwy gael effaith gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth. | | | | | | | |
| 22 | **% yr holl drigolion arferol 3-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg** | **57.7% (Cyfrifiad 2011)** | Dim targed | **55.1% (Cyfrifiad 2021)** | Amherthnasol | ▼ | **32.0%** | **34.7%** | **** |
| | | Gwelwyd gostyngiad ymhob awdurdod lleol yng nghanran plant rhwng 3 a 15 oed y dywedir y gallant siarad Cymraeg rhwng 2011 a 2021.<br>Ar lefel genedlaethol credir bod y gostyngiad yn nifer a chanran pobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg yn digwydd yn bennaf oherwydd gostyngiad ymhlith plant a phobl ifanc y dywedwyd eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Yn Sir Gaerfyrddin mae nifer y plant 3-15 oed sy'n gallu siarad Cymraeg ychydig dros 15,000, sef gostyngiad o 500 sy'n ostyngiad o 2.6 pwynt caran.<br>Roedd gostyngiadau hefyd i'w gweld yn y categorïau oedran 16-64 a 65+, er ar lefelau mwy sylweddol na'r grŵp oedran iau. I ehangu, mae'r gostyngiad ymhlith pobl dros 65 oed sy'n gallu siarad Cymraeg yn golygu gostyngiad canrannol o 8.7. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 23 | **% y bobl sy'n mynd i neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau'n ymwneud â'r celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn** | **64.2% (2019/20)** | Dim targed | **75.9% (2022/23)** | Amherthnasol | ▲ | **72.1%** | **76.0%** | *** |
| | | Yn ôl data diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru o 2022/23, mae bod yn bresennol/cymryd rhan mewn gweithgareddau'r Celfyddydau, Diwylliant neu Dreftadaeth wedi cynyddu ers canlyniadau blaenorol 2019/20, ac nid yw hyn yn syndod gan fod y data blaenorol ar gyfer y cyfnod ar ddechrau Cyfyngiadau Covid.<br>Mae bod yn bresennol a/neu gymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, diwylliant neu dreftadaeth yn gysylltiedig â gwell iechyd a llesiant yn gyffredinol. Mae digwyddiadau o'r fath hefyd yn sail i greu ymdeimlad o le a hunaniaeth genedlaethol. | | | | | | | |
| 24 | **Nifer y cwynion sy'n ymwneud â Safonau'r Gymraeg a ddaeth i law (Comp/002)** | **6** | Dim targed | **8** | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Derbyniwyd wyth cwyn yn ystod 2023/24 yn ymwneud â Safonau'r Gymraeg, ac mae hwn yn gynnydd bach ar y flwyddyn flaenorol. | | | | | | | |
| 25 | **% y staff ar Lefel 3 neu uwch o'r Fframwaith Sgiliau Cymraeg (ac eithrio staff yn yr ysgol) (Cym/001)** | **Ddim ar gael** | Dim targed | **Ddim ar gael** | Amherthnasol | | Amherthnasol | | |
| | | Nid oes data pendant ar gyfer y mesur hwn ar gael o'r meddalwedd cyfredol. Mae meddalwedd newydd wedi'i ddiweddaru yn cael ei osod ar hyn o bryd, felly rydym yn gobeithio bydd data cynhwysfawr llawn ar gael yn y dyfodol agos. | | | | | | | |
| 26 | **Mae'n bwysig bod y Gymraeg yn cael ei hyrwyddo a'i hamddiffyn.**<br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog* **:** *Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.* | **0.69 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Dim targed | **0.74 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Amherthnasol | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Cafwyd bron 4,000 o ymatebwyr i'n harolwg trigolion 2023, ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno ei bod yn bwysig hyrwyddo ac amddiffyn y Gymraeg. Fodd bynnag, nid pawb oedd yn cytuno. Roedd y sgoriau uchaf ar gyfer ymatebwyr oedd yn byw yn ardaloedd cymunedol Teifi (0.86), Aman (0.84) a Gwendraeth (0.78). Nid yw hyn yn syndod o ystyried bod yr ardaloedd hyn yn gartref i'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg fel cyfanswm o'u poblogaeth. Ar ben hynny, roedd y sgôr yn sylweddol uwch ymhlith y grŵp oedran 16-24 a'r rhai sy'n gallu siarad Cymraeg. | | | | | | | |
| 27 | **Nifer y staff a gwblhaodd gyrsiau dysgu a gwella sgiliau Cymraeg (Cym/ 003)** | **227 (Blwyddyn Academaidd 2021/22)** | Dim targed | **242 (Blwyddyn Academaidd 2022/23)** | Amherthnasol | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Mae'r mesur hwn yn seiliedig ar y Flwyddyn Academaidd (Medi - Awst) gyda 242 aelod o staff yn mynychu cyrsiau Dysgu Cymraeg ar wahanol lefelau rhwng Medi 2022 a Mehefin 2023. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 3d - Blaenoriaeth Thematig - Diogelwch Cymunedol a Chydlyniant** | | | | | | | | | |
| 28 | **Rwy'n hoffi byw yn Sir Gâr**<br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog: Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.* | 1.32 (Sgôr Mynegai Cyfartalog) | Dim targed | 1.16 (Sgôr Mynegai Cyfartalog) | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Cafodd ein harolwg trigolion 2023 bron i 4,000 o ymatebwyr, ac ar y cyfan maent yn cytuno'n gryf eu bod yn hoffi byw yn Sir Gaerfyrddin. Roedd y sgorau ar eu huchaf ar gyfer ardaloedd cymunedol Tywi a Theifi ac ar eu hisaf yn Llanelli. Hefyd mae'n ddiddorol nodi bod y sgoriau ar eu hisaf ymysg y grŵp oedran iau. Mae 90.3% o ymatebwyr Sir Gaerfyrddin i'r Arolwg Cenedlaethol yn nodi eu bod yn fodlon â'u hardal leol fel lle i fyw, sy'n gynnydd ar y canlyniad blaenorol o 88.4%. | | | | | | | |
| 29 | **Rwy'n teimlo y gallaf fyw'r bywyd yr wyf am ei fyw heb ofn barn na rhagfarn.**<br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog: Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.* | 0.71 (Sgôr Mynegai Cyfartalog) | Dim targed | 0.49 (Sgôr Mynegai Cyfartalog) | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Cafwyd bron 4,000 o ymatebwyr i'n harolwg trigolion 2023, a oedd yn cytuno i raddau helaeth eu bod yn gallu byw'r bywyd maent yn ei ddymuno heb ofni rhagfarn na chael eu barnu, er bod y sgôr wedi gostwng rhyw fymryn ers y flwyddyn flaenorol. Roedd y niferoedd a gytunai â'r datganiad hwn yn is ymhlith aelodau'r gymuned LGBTQ+ ac ymatebwyr ag anableddau. Mae hyn yn foethusrwydd nad yw pawb ar draws y byd yn gallu ei fwynhau, felly mae'r ffaith bod trigolion ar y cyfan yn teimlo eu bod yn gallu bod yn nhw eu hunain yn tystio i natur Sir Gaerfyrddin fel lle a'i phobl. Mae hyn yn rhan annatod o'r ymdeimlad o berthyn, ac yn un o'r prif ffactorau sy'n cyfrannu at hapusrwydd cyffredinol. Mae pobl hapusach yn byw bywydau hapusach sydd, yn ei dro, yn caniatáu iddynt wneud cyfraniadau cadarnhaol i'w cymunedau. | | | | | | | |
| 30 | **Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy nghymuned.**<br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog: Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.* | 0.78 (Sgôr Mynegai Cyfartalog) | Dim targed | 0.55 (Sgôr Mynegai Cyfartalog) | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Cafodd ein harolwg trigolion 2023 bron i 4,000 o ymatebwyr, a oedd yn cytuno i raddau helaeth eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymuned. Sir Gaerfyrddin sydd ag un o'r cyfraddau troseddu isaf o blith holl siroedd Cymru ac mae sgôr bositif i'r datganiad hwn yn adlewyrchu hyn.<br>Fodd bynnag, mae gwahaniaeth o fewn ardaloedd cymunedol lleol, gyda Llanelli yn arddangos sgôr negyddol gyffredinol o -0.08 sy'n cynrychioli lefel sylweddol o anghytundeb, ond cynhaliwyd yr arolwg hwn yn ystod y sefyllfa ddadleuol yng Ngwesty Parc y Strade, a manteisiodd trigolion lleol ar y cyfle i rannu eu barn trwy'r ymgynghoriad hwn. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 31 | **% y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd (PAM/023)** | **99.07%** | 95.00% | **99.13%** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Mae safonau hylendid bwyd yn Sir Gaerfyrddin yn parhau i fod yn uchel yn 2023/24 - dros 99%. | | | | | | | |
| 32 | **% y busnesau risg uchel o safbwynt Safonau Masnach a oedd yn agored i archwiliad wedi'i raglennu, a gafodd eu harchwilio (PNN/001i)** | **100%** | 100% | **49.0%** | ☹ | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Ar gyfer 2023/24 ni chyrhaeddom y targed o 100% a dim ond canlyniad o 49% gawsom ni. Y rheswm am hyn yw, yn ystod ail hanner y flwyddyn, bu cynnydd mewn ymchwiliadau troseddol risg uchel adweithiol a gwaith rhagweithiol proffil uchel i fynd i'r afael â gwerthu fêps yn anghyfreithlon ac i blant tan oed, lle roedd angen ailgyfeirio adnoddau o arolygiadau arferol. Ailraddiwyd risg y safleoedd risg uchel mwyaf agored i niwed yn ôl natur busnes, hanes cydymffurfiaeth, a gwybodaeth a dderbyniwyd, felly er mwyn bod yn siŵr, ymwelwyd â'r safleoedd risg uchaf yn eu plith (e.e. safleoedd storio petrolewm, safleoedd storio ffrwydron, a'r rhai sydd wedi cael y nifer uchaf o gŵynion gan ddefnyddwyr). Blaenoriaethwyd yr holl adeiladau oedd yn weddill yn ystod chwarter cyntaf 2024-25. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 3e - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Hamdden a Thwristiaeth** | | | | | | | | | |
| 33 | **Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd fesul 1,000 o'r boblogaeth (LCL/001)** | **2,740** fesul 1,000 o'r boblogaeth | **2,754** fesul 1,000 o'r boblogaeth | **3,490** fesul 1,000 o'r boblogaeth | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Roedd dros 660,000 o ymweliadau (mewn person ac ar-lein) â'n llyfrgelloedd yn ystod 2023/24, sef gwelliant o 28% ers ffigur y flwyddyn flaenorol o 515,570. Gwnaed y cynnydd hwn drwy ddigwyddiadau amrywiol yn ein llyfrgelloedd ledled y sir megis Clip Corner yn Llyfrgell Caerfyrddin gan gynnig mynediad i filoedd o raglenni radio a theledu o archifau'r BBC, S4C ac ITV Cymru, ymweliadau Siôn Corn, gwneud torchau ac addurniadau, clwb gwyddbwyll a sioeau ffilm, ynghyd ag ymweliadau Diwrnod y Llyfr, sesiynau crefftau Sul y Mamau a'r Pasg a sesiynau paentio dyfrlliw. Mae ein hymweliadau digidol yn parhau'n uchel gyda chwsmeriaid yn elwa ar ein hystod o e-lyfrau digidol, e-lyfrau llafar, papurau newydd, cylchgronau ac apiau hyfforddi. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 34 | **Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth (PAM 017)** | **7,017** | 7,169 | **8,487** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Mae nifer yr ymwelwyr â'n canolfannau hamdden yn ystod 2023/24 wedi cyrraedd 1.6m am y tro cyntaf, sef cynnydd o 21% ers y flwyddyn flaenorol gan ddychwelyd i'r lefelau cyn covid.<br>Mae hyn hefyd wedi'i adlewyrchu yn y cynnydd yn nifer yr aelodau a'r nifer sy'n dysgu nofio ar y cyd â thwf da mewn gweithgareddau yn y gymuned. Mae buddsoddiad wedi bod yn digwydd mewn seilwaith, ac mae twf sylweddol wedi bod yn aelodaeth rhaglenni i ddosbarthiadau mewn mannau gwledig, yn enwedig Sanclêr a Llanymddyfri. Mae aelodaeth wedi tyfu yng Nghanolfannau Hamdden Caerfyrddin, Dyffryn Aman a Llanelli. Mae cynnydd wedi bod yn y nifer sy'n archebu ac yn defnyddio'r caeau newydd yn rheolaidd yn Nyffryn Aman. Mae canolbwyntio ar gadw aelodau a theyrngarwch wedi helpu i weld y niferoedd sy'n aros yn cynyddu, ac mae cael pobl i gyfeirio cyfaill wedi bod yn ysgogydd mawr ar hyd y flwyddyn. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 3f - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Gwastraff** | | | | | | | | | |
| 35 | **% y gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio (PAM/030)** | **65.25%** | 67.00% | **70.49%** | ☺ | ▲ | **65.71% (2022/23)** | **68.81% (2022/23)** | ** |
| | | Mae ein ffigurau ailgylchu ar gyfer 2023/24 wedi gwella i 70.49% ac eisoes wedi cyrraedd y Targed Cenedlaethol o ailgylchu 70% erbyn diwedd Mawrth 2025. Mae'r ffigurau cymharol diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer 2022/23 yn dangos mai 65.71 oedd y gyfradd ailgylchu gyfartalog ledled Cymru, a oedd yn gynnydd bach o 65.16% yn 2021/22, ac ar y pwynt hwnnw roeddem yn is na chyfartaledd Cymru sef 65.25%. Ers y gwelliant yn ystod 2023/24 a chan ein bod eisoes yn cyrraedd y targed cenedlaethol, bydd yn ddiddorol sut rydym yn cymharu â gweddill Cymru pan gyhoeddir y data cymharol ar gyfer 2023/24 ym mis Ionawr 2025. | | | | | | | |
| 36 | **Cilogramau o wastraff gweddilliol Awdurdod Lleol nad yw'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn ystod y flwyddyn fesul person (PAM/043)** | **144 cilogram y person** | 143 cilogram y person | **121 cilogram y person** | ☺ | ▲ | **172 cilogram (2022/23)** | **150 cilogram (2022/23)** | **** |
| | | Mae cyfartaledd y gwastraff trefol y person nad yw'n cael ei ailgylchu wedi lleihau ymhellach i 121 cilogram ar ddiwedd 2023/24, o gymharu â 144 cilogram yn 2022/23.<br>Mae'r ffigurau cymharol diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer 2022/23 yn dangos bod Sir Gaerfyrddin yn well na chyfartaledd Cymru a bod gan y sir y ffigur 4ydd gorau yng Nghymru. Ni fydd data cymharol 2023/24 yn cael ei gyhoeddi tan fis Ionawr 2025. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 37 | **% y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi (WMT/004)** | **4.89%** | 10.00% | **2.01%** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Mae % y gwastraff a anfonir i'w gladdu wedi lleihau ymhellach yn ystod 2023/24 a bellach mae lawr i 2.01%, felly ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed cenedlaethol o Ddim Gwastraff i Safleoedd Tirlenwi. | | | | | | | |
| 38 | **% ein ffyrdd sy'n lân ar sail y Sgôr Dangosydd Glendid (STS/005a)** | **72.7%** | 77.0% | **71.6%** | ☹ | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Mae tystiolaeth o'r arolygon System Archwilio a Rheoli Amgylcheddol Leol (LEAMS) deufisol a gynhaliwyd yn ystod 2023/24 yn dangos gostyngiad yn safonau Ansawdd yr Amgylchedd Lleol (LEQ), yn enwedig ym misoedd Hydref / Rhagfyr a Chwefror, ac mae tystiolaeth o'r arolygon wedi dangos bod sbwriel a ollyngwyd wedi cael effaith ar y lefelau sbwriel a geir ar y strydoedd. Gallai'r tywydd garw a gafwyd yn ystod y cyfnod fod wedi cyfrannu at hyn. Mae hyn wedi golygu nad yw'r mesur yn unol â'r targed. Rhennir data o arolygon LEAMS gyda gwasanaethau allweddol yn dilyn pob arolwg. Bydd y materion a nodwyd yn yr adroddiadau yn cael eu cyflwyno i grŵp Strategol Ansawdd yr Amgylchedd Lleol i geisio gwella'r mesurau. | | | | | | | |
| 39 | **Nifer cyfartalog o ddiwrnodau gweithio y mae'n cymryd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon (PAM/035)** | **2.8 diwrnod** | 4 diwrnod | **2.3 diwrnod** | J | p | Amherthnasol | | |
| | | Mae nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i glirio achosion o dipio anghyfreithlon wedi gwella i 2.3 diwrnod yn ystod 2023/24 er gwaethaf cynnydd o 5% yn nifer yr achosion o 1,615 i 1,701. | | | | | | | |
| 40 | **Mae fy amgylchedd lleol yn ddymunol ac yn cael gofal da**<br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog: Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.* | **0.14 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Dim targed | **0.04 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Cafwyd bron 4,000 o ymatebwyr i'n harolwg trigolion, er bod y mwyafrif yn tueddu i gytuno bod eu hamgylchedd lleol yn ddymunol ac yn cael gofal da, mae cyfran gymharol uchel yn anghytuno. Roedd rhai o'r sylwadau'n amlygu problemau ynghylch glanhau strydoedd, gwastraff, sbwriel a chynnal a chadw ymylon ffyrdd/gwrychoedd yn ffactorau a allai gyfrannu at hyn. Mae'n ddiddorol nodi bod y sgôr ar gyfer ardal gymunedol Llanelli yn sylweddol is na'r sgôr gyffredinol sef (-0.42). I'r gwrthwyneb, yr ardaloedd oedd yn sgorio uchaf oedd Tywi (0.51) a Taf Myrddin (0.29). | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 3g - Blaenoriaeth Gwasanaeth - Priffyrdd a Thrafnidiaeth** | | | | | | | | | |
| 41 | **% y ffyrdd dosbarth 'A' mewn cyflwr gwael (PAM/020)** | **3.1%** | 3.5% | **Ddim ar gael** | Amherthnasol | | Amherthnasol | | |
| | | Ni chwblhawyd unrhyw arolygon yn 2023/24, fodd bynnag, cwblhawyd yr arolygon ar ddechrau 2024/25 a byddant yn cael eu hadrodd yn Adroddiad Blynyddol 2024/25. | | | | | | | |

<table>
<tr><th rowspan="2" colspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod DP</th><th>2022/23 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2023/2024 neu fwyaf diweddar</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Canlyniad Gwirioneddol</th><th>Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹</th><th>A wnaethom ni wella ▲ neu ▼</th><th>Cyfartaledd Cymru</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym yn cymharu yng Nghymru *i ****</th></tr>
<tr><td rowspan="2">42</td><td rowspan="2">% y ffyrdd dosbarth 'B' mewn cyflwr gwael (PAM/021)</td><td>2.4%</td><td>3.5%</td><td>Ddim ar gael</td><td colspan="2">Amherthnasol</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Ni chwblhawyd unrhyw arolygon yn 2023/24, fodd bynnag, cwblhawyd yr arolygon ar ddechrau 2024/25 a byddant yn cael eu hadrodd yn Adroddiad Blynyddol 2024/25.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">43</td><td rowspan="2">% y ffyrdd dosbarth 'C' mewn cyflwr gwael (PAM/022)</td><td>10.1%</td><td>10.0%</td><td>Ddim ar gael</td><td colspan="2">Amherthnasol</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Ni chwblhawyd unrhyw arolygon yn 2023/24, fodd bynnag, cwblhawyd yr arolygon ar ddechrau 2024/25 a byddant yn cael eu hadrodd yn Adroddiad Blynyddol 2024/25.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">44</td><td rowspan="2">Mae'n hawdd cael mynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnaf i<br><br>Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog: Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.</td><td>0.05 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)</td><td>Dim targed</td><td>-0.05 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)</td><td>Amherthnasol</td><td>▼</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cafwyd bron 4,000 o ymatebwyr i'n harolwg trigolion 2023, ac er bod llawer yn cytuno eu bod yn gallu cyrchu'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, roedd nifer tebyg wedi dweud 'y naill na'r llall', ac roedd nifer sylweddol o ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad hwn. Mae hyn wedi arwain at newid o gytuno'n gyffredinol i anghytuno'n gyffredinol wrth gymharu canlyniadau eleni â rhai'r llynedd.<br>Mae tueddiadau ar sail lleoliad yn cyd-fynd â'r rhai a welir ar gyfer y datganiad nesaf ar fynediad at drafnidiaeth gyhoeddus dda, gyda'r sgoriau isaf i'w gweld yn ardaloedd Tywi a Gwendraeth.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">45</td><td rowspan="2">Mae cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da ar gael yn fy ardal i<br><br>Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog: Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.</td><td>-0.41 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)</td><td>Dim targed</td><td>-0.45 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)</td><td>Amherthnasol</td><td>▼</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cafwyd bron 4,000 o ymatebwyr i'n harolwg trigolion 2023, ac roedd mwyafrif yr ymatebwyr naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno â'r datganiad 'mae cysylltiadau trafnidiaeth da yn fy ardal i'. Mae'r sgôr wedi gostwng o gymharu â'r llynedd. Mae dadansoddiad pellach yn dangos bod sgoriau ar eu hisaf ar gyfer ymatebwyr yn byw yn ardaloedd cymunedol Tywi (-0.94) a Gwendraeth (-0.66). Mae hyn i'w ddisgwyl o gofio bod yr ardaloedd hyn yn cynnwys rhai o wardiau mwyaf gwledig y sir. Mae cysylltiadau trafnidiaeth gwael yn niweidiol, nid yn unig i'r bobl sy'n byw, gweithio, a dysgu yn y sir ond hefyd i'r economi leol. Mae'n atal pobl rhag gweld eu teuluoedd a'u ffrindiau, cael mynediad at wasanaethau, gweithgareddau llesiant a gwaith, ac mae hefyd yn arafu twf economaidd trwy gyfyngu ar symudedd cymdeithasol, a gall weithredu fel rhwystr i dwf busnes.</td></tr>
</table>

# Amcan Llesiant 4 - Moderneiddio a datblygu ymhellach fel Cyngor cydnerth ac effeithlon (Ein Cyngor)

## Ein Cyfres Ddata Gorfforaethol gyda'n Dangosyddion a'n Mesurau Llwyddiant - 2023/24

| | | Pa mor dda yr ydym wedi ei | Pa mor dda ydym yn ei wneud? | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Gweler esboniad o'r perfformiad | | | | Gwybodaeth Gymharol Cymru | | |
| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 4a - Trosfwaol** | | | | | | | | | |
| 1 | **Gallaf gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor trwy fy newis iaith**<br>*Allwedd Sgôr Mynegai Cyfartalog: Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.* | **1.40 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Dim targed | **1.37 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Cafwyd bron 4,000 o ymatebion i'n harolwg trigolion 2023, ac mae mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno y gallant gael mynediad at wasanaethau'r Cyngor drwy eu dewis iaith, a ddangosir drwy sgôr SMC o 1.37. Dyma'r sgôr uchaf a welwyd o dan y thema hon, fel oedd yr achos y llynedd. Roedd y sylwadau ansoddol a dderbyniwyd yn gymysg, gyda rhai'n mynegi rhwystredigaeth eu bod yn derbyn gohebiaeth yn Gymraeg neu eu bod yn gweld/clywed gwybodaeth yn Gymraeg yn gyntaf wrth ffonio neu gyrchu gwasanaethau ar-lein. I'r gwrthwyneb, roedd eraill yn dweud nad oeddent bob amser yn gallu cyfathrebu â'r Cyngor drwy gyfrwng y Gymraeg. | | | | | | | |
| 2 | **Pan wyf yn defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, mae'r staff yn agos-atoch a chyfeillgar**<br>*(Sgôr Mynegai Cyfartalog)* | **0.82 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Dim targed | **0.77 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | O safbwynt cadarnhaol, mae mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y staff yn agos-atoch ac yn gyfeillgar wrth gysylltu â Gwasanaethau'r Cyngor. Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau yn y sylwadau lle roedd y gwasanaeth cwsmeriaid a ddarparwyd gan rai staff wedi gostwng yn is na disgwyliadau ein preswylwyr. | | | | | | | |
| 3 | **Gallaf gael mynediad hwylus i'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau'r Cyngor**<br>*(Sgôr Mynegai Cyfartalog)* | **0.50 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Dim targed | **0.46 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | O safbwynt cadarnhaol, mae mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo y gallant gael mynediad yn hwylus i'r wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau'r Cyngor. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 4 | **Mae cysylltu â'r Cyngor yn syml a rhwydd** *(Sgôr Mynegai Cyfartalog)* | **0.31 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Dim targed | **0.28 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Mae'r rhan fwyaf o ymatebwyr (er bod y gyfran yn is) yn cytuno bod cysylltu â'r Cyngor yn syml ac yn rhwydd, a ddangosir drwy sgôr o 0.28. Adroddir rhesymau niferus am hyn yn y sylwadau. Dyma rai enghreifftiau gwerth eu nodi:<br>• Anhawster canfod y person cywir i siarad â nhw,<br>• Amseroedd aros hir wrth alw,<br>• Staff ddim yn dychwelyd galwadau nac yn ymateb i negeseuon e-bost,<br>• Natur ddigidol rhai prosesau yn rhwystr i rai,<br>• Tudalennau'r wefan ddim yn hawdd eu defnyddio ac yn cael eu hystyried yn hen,<br>• Diffyg ymarferoldeb o ran nodweddion 'Fy Nghyfrif' ac 'Adrodd' | | | | | | | |
| 5 | **Ar y cyfan, mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon dda** *(Sgôr Mynegai Cyfartalog)* | **0.27 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Dim targed | **0.17 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Mae'r ymatebwyr yn cytuno'n bennaf fod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon dda ar y cyfan, ond mae'r sgôr bositif cymharol isel o 0.17 yn dangos bod cyfran resymol nodedig o ymatebwyr yn anghytuno â'r datganiad hwn. Mae gostyngiad o 0.10 ar yr un canlyniad y flwyddyn flaenorol. Mae'r rhesymau tu ôl i'r teimladau hyn yn niferus ac maent yn gyson i raddau helaeth â themâu'r llynedd, sy'n cynnwys:<br>• Gwasanaeth casglu gwastraff annibynadwy ac afreolaidd,<br>• Canfyddiad o ddiffyg adfywio canol trefi,<br>• Cyflwr y ffyrdd yn wael h.y. tyllau<br>• Diffyg glanhau strydoedd,<br>• Disgwyl yn hir am atgyweiriadau tai,<br>• Mwy o sbwriel a thipio anghyfreithlon,<br>• Diffyg trafnidiaeth gyhoeddus,<br>• Diffyg goleuadau stryd,<br>• Canfyddiad bod y gwasanaeth gofal cymdeithasol yn tanberfformio. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 6 | **Mae'r Cyngor yn rhoi gwybod i bobl sut mae'n perfformio** *(Sgôr Mynegai Cyfartalog)* | **-0.10 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Dim targed | **-0.12 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Roedd yr ymatebion yn gymysg o ran y graddau y mae trigolion yn teimlo bod y Cyngor yn rhoi gwybod iddynt sut mae'n perfformio. Dewisodd y gyfran fwyaf o ymatebwyr 'y naill na'r llall', sydd efallai'n arwydd o broblem ehangach lle nad yw preswylwyr yn gwybod sut i gael gafael ar y wybodaeth hon. Mae hyn yn gyson â'r tueddiadau a welwyd y llynedd | | | | | | | |
| 7 | **Mae'r Cyngor yn rhoi cyfleoedd i mi gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau** *(Sgôr Mynegai Cyfartalog)* | **-0.19 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Dim targed | **-0.19 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Roedd y farn yn gymysg hefyd ynghylch 'mae'r Cyngor yn cynnig cyfleoedd i drigolion gymryd rhan mewn penderfyniadau.' Nododd llawer 'y naill na'r llall' sy'n cadarnhau pwysigrwydd ymgynghoriadau wrth roi cyfleoedd i drigolion rannu eu barn. Mae cyfran fawr arall yn anghytuno sy'n amlygu pwysigrwydd esbonio wrth drigolion sut yr ystyriwyd eu barn yn dilyn ymgynghoriad. Mae hyn yn adlewyrchu'r adborth gafwyd y llynedd. | | | | | | | |
| 8 | **Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo** *(Sgôr Mynegai Cyfartalog)* | **-0.33 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Dim targed | **-0.46 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Gwnaed sawl sylw mewn perthynas â'r dreth gyngor a'r canfyddiad bod adnoddau ariannol yn cael eu gwastraffu/eu cyfeirio i'r mannau anghywir. Ategir hyn gan y sgôr negyddol a nodir ar gyfer 'Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo.' Mae gostyngiad o 0.13 ar yr un canlyniad y flwyddyn flaenorol. | | | | | | | |
| 9 | **Mae arian yn cael ei fuddsoddi yn y meysydd cywir** *(Sgôr Mynegai Cyfartalog)* | **-0.41 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Dim targed | **-0.57 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | Amherthnasol | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Bu i gyfran uchel o'r ymatebwyr nodi 'y naill na'r llall' neu 'ddim yn gwybod' i'r datganiad 'Mae'r Cyngor yn gwneud defnydd da o'r adnoddau ariannol sydd ar gael iddo', ac mae hyn efallai'n arwydd o broblem ehangach, sef diffyg dealltwriaeth ymhlith y cyhoedd ynghylch sut mae'r Cyngor yn defnyddio'i adnoddau ariannol. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| **Amcan Llesiant 4b - Trawsnewid Sefydliadol - Effeithlonrwydd a Gwerth am Arian** | | | | | | | | | |
| **Mesur adnabod yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd** | | | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 4c - Trawsnewid Sefydliadol - Incwm a Masnacheiddio** | | | | | | | | | |
| 10 | **Cymhorthdal fesul defnyddiwr yn ein Canolfannau Hamdden (Cyllideb wedi'i rhannu gan bresenoldebau) (Leis/009)** | **£1.80** | £1.62 | **£2.45** | ☹ | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Mae effaith blwyddyn lawn y dyfarniad cyflog wedi'i chynnwys yn y gyllideb, gan arwain at wariant gweithredol sylweddol uwch. Er gwaethaf y cynnydd sylweddol yn y nifer oedd yn gwneud gweithgareddau yn Ch4, mae hyn wedi cael effaith negyddol ar y cymhorthdal fesul defnyddiwr o ystyried bod costau staff yn gyfrifol am tua dwy ran o dair o'r gwariant y gellir ei reoli. Byddwn yn parhau i adolygu pob maes o wariant y gellir ei reoli, ac yn ceisio cynyddu incwm a niferoedd er mwyn lleihau'r cymhorthdal fesul defnyddiwr. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 4d - Trawsnewid Sefydliadol - Gweithle** | | | | | | | | | |
| **Mesur adnabod yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd** | | | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 4e - Trawsnewid Sefydliadol - Gweithlu** | | | | | | | | | |
| 11 | **Nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth cydnabyddedig ffurfiol fesul 1,000 o weithwyr (PAM/044)** | **15.2** | 12.0 | **16.1** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Roedd 107 o weithwyr y cyngor ar gynlluniau prentisiaeth cydnabyddedig ffurfiol yn ystod 2024/25. Mae hyn yn uwch na'r disgwyl ac yn welliant ar y flwyddyn flaenorol. | | | | | | | |
| 12 | **% y gweithwyr o gymunedau lleiafrifoedd ethnig 1.3.4.4** | **0.86%** | Dim targed | **0.94%** | Amherthnasol | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Mae 85 o weithwyr y Cyngor o gymunedau sydd o leiafrifoedd ethnig ar ddiwedd Mawrth 2024 o gymharu â 71 ar ddiwedd Mawrth 2023. | | | | | | | |
| **Amcan Llesiant 4f - Trawsnewid Sefydliadol - Dylunio a Gwella Gwasanaethau** | | | | | | | | | |
| **Mesur adnabod yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd** | | | | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod DP</th><th>2022/23 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2023/2024 neu fwyaf diweddar</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Canlyniad Gwirioneddol</th><th>Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹</th><th>A wnaethom ni wella ▲ neu ▼</th><th>Cyfartaledd Cymru</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td colspan="10">Amcan Llesiant 4g - Trawsnewid Sefydliadol - Cwsmeriaid a Thrawsnewid Digidol</td></tr>
<tr><td rowspan="2">13</td><td rowspan="2">Nifer y galwadau a dderbyniwyd yn y Ganolfan Gyswllt (M&M/005)</td><td>238,297</td><td>250,000</td><td>175,859</td><td>☹</td><td>▼</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Ar ddechrau'r flwyddyn, sefydlwyd cyfleuster 'Dewisiadau' i'n llinellau ffôn sy'n cyfeirio cwsmeriaid i rannau o'r sefydliad y maent eu hangen. Mae hyn wedi lleihau'r arfer o drin galwadau ddwywaith, gyda'r galwadau'n mynd yn uniongyrchol i'r tîm angenrheidiol yn hytrach na chael eu trosglwyddo drwy'r ganolfan gyswllt, ac mae hyn yn ei dro wedi lleihau nifer y galwadau sy'n dod drwy'r ganolfan gyswllt. Hefyd mae cwsmeriaid yn dewis dulliau cysylltu eraill e.e. e-bost, y cyfryngau cymdeithasol, ffurflenni ar-lein ac ati yn hytrach na'r ffôn. Lansiwyd Hwb Bach y Wlad gennym yn ystod yr haf, lle mae staff y gwasanaethau cwsmeriaid yn darparu ein gwasanaethau mewn lleoliadau o fewn y prosiect Deg Tref, ac mae hyn hefyd wedi lleihau'r angen i gwsmeriaid ffonio. Mae'r ganolfan gyswllt yn parhau i ddelio â galwadau lle mae cwsmeriaid angen ein cefnogaeth fwyaf ac ymholiadau trwy gyfryngau eraill tra'n gwella profiad y cwsmer.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">14</td><td rowspan="2">Cyflymder cyfartalog i ateb galwadau i'r Ganolfan Gyswllt. (munudau ac eiliadau) (M&M/006)</td><td>6.32 munud</td><td>5.00 munud</td><td>1.05 munud</td><td>☺</td><td>▲</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Mae cyflwyno'r opsiwn 'Dewisiadau' a nodir uchod, wedi gweld y cyflymder cyfartalog a gymerir i ateb galwadau yn gostwng yn sylweddol i 1 munud o gymharu â thros 6 munud y llynedd.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">15</td><td rowspan="2">Nifer y sesiynau defnyddwyr i wefan y Cyngor Sir (M&M/001)</td><td>3,363,214</td><td>3,400,000</td><td>4,564,455</td><td>☺</td><td>▲</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Bu i nifer y sesiynau defnyddwyr i wefan y Cyngor yn ystod 2023/24 gynyddu 37% o gymharu â'r llynedd, a chyrraedd dros 4.5m o sesiynau, y lefelau uchaf eto.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">16</td><td rowspan="2">Nifer y Gwasanaethau Cyngor Trafodiadol sydd ar gael i'r cyhoedd ar-lein. (ICT/003)</td><td>53</td><td>56</td><td>61</td><td>☺</td><td>▲</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Yn ystod 2023/24 darparwyd 8 gwasanaeth cyngor trafodiadol ychwanegol i'r cyhoedd ar-lein, megis: eBillio ar gyfer y Dreth Gyngor, rheoli Debydau Uniongyrchol a gwneud cais am Eithriadau; Ffurflen Gwasanaeth Cyn Ymholiad Cynllunio; a Thocyn Bws Newydd i enwi ond rhai. Mae dros 60 o wasanaethau trafodiadol wedi cael eu hychwanegu ar-lein yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, sy'n ffordd ychwanegol o gael mynediad at y gwasanaethau hyn.</td></tr>
<tr><td colspan="10">Amcan Llesiant 4h - Trawsnewid Sefydliadol - Datgarboneiddio a Bioamrywiaeth</td></tr>
<tr><td colspan="10">Mesur adnabod sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ond hefyd gweler Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 3: Datgarboneiddio a'r Argyfwng Natur</td></tr>
<tr><td colspan="10">Amcan Llesiant 4i - Trawsnewid Sefydliadol - Ysgolion</td></tr>
<tr><td colspan="10">Mesur adnabod sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, ond hefyd gweler Blaenoriaeth Thematig Amcan Llesiant 1: Addysg</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="10">5 - Galluogwyr Busnes Craidd</th></tr>
<tr><th colspan="10">Ein Cyfres Ddata Gorfforaethol gyda'n Dangosyddion a'n Mesurau Llwyddiant - 2023/24</th></tr>
<tr><td colspan="2" rowspan="2"></td><td rowspan="2">Pa mor dda yr ydym wedi ei</td><td colspan="7">Pa mor dda ydym yn ei wneud?</td></tr>
<tr><td colspan="4">Gweler esboniad o'r perfformiad</td><td colspan="3">Gwybodaeth Gymharol Cymru</td></tr>
<tr><td colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod DP</td><td>2022/23 neu ganlyniad blaenorol</td><td colspan="7">2023/2024 neu fwyaf diweddar</td></tr>
<tr><td>Ein Canlyniad</td><td>Targed</td><td>Canlyniad Gwirioneddol</td><td>Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹</td><td>A wnaethom ni wella ▲ neu ▼</td><td>Cyfartaledd Cymru</td><td>Chwartel Gorau Cymru</td><td>Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i ****</td></tr>
<tr><td colspan="10">5a - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)</td></tr>
<tr><td rowspan="2">1</td><td rowspan="2">% y ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth yr ymatebwyd iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith (2.1.1.17)</td><td>94.59%</td><td>90.00%</td><td>94.37%</td><td>☺</td><td>▲</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Ymatebwyd i 95% o'r ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth erbyn yr amser gofynnol o 20 diwrnod gwaith yn ystod 2023/24, er gwaethaf cynnydd o 17% yn nifer y ceisiadau a gafwyd sef 869, o gymharu â 740 yn 2022/23.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">2</td><td rowspan="2">% y defnydd o'r ddesg gymorth Hunanwasanaeth TGCh (ICT/002)</td><td>65.8%</td><td>68.0%</td><td>65.6%</td><td>☹</td><td>▼</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Mae nifer y staff sy'n gofyn am gymorth TG drwy'r ddesg gymorth hunanwasanaeth wedi gostwng yn ystod 2023/24, mae hyn yn bennaf oherwydd bod staff cymorth TG bellach wedi'u lleoli yn Neuadd y Sir yng Nghaerfyrddin, Tŷ Elwyn yn Llanelli, a Thŷ Parc-yr-hun yn Rhydaman, gan fynd o swyddfa i swyddfa'n cynnig cymorth. Bellach mae gan gwsmeriaid well hygyrchedd i gymorth TG ac maent yn gofyn am gyngor tra byddwn ar y safle.</td></tr>
<tr><td colspan="10">5b - Marchnata a'r Cyfryngau gan gynnwys gwasanaethau cwsmeriaid</td></tr>
<tr><td colspan="10">Mesur adnabod yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, gweler Amcan Llesiant 4g - Trawsnewid Sefydliadol - Cwsmeriaid a Thrawsnewid Digidol</td></tr>
<tr><td colspan="10">5c -Cyfreithiol</td></tr>
<tr><td colspan="10">Mesur adnabod yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd</td></tr>
</table>

| Diffiniad / Cyfeirnod DP | | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| **5d - Cynllunio** | | | | | | | | | |
| 3 | **Canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynir arnynt mewn pryd. (PLA/018)** | **89.0%** | 85.0% | **87.5%** | ☺ | ▼ | **85.5% (2023/24)** | **92.4% (2023/24)** | ** |
| | | Penderfynwyd ar 1,373 o geisiadau cynllunio yn ystod y flwyddyn, a phenderfynwyd ar 1,202 ar amser (87.5%), felly'n rhagori ar y targed o 85%, ond mae'r perfformiad wedi gwaethygu ychydig ers y llynedd sef 89%, mae hyn yn rhannol oherwydd effaith cyfyngiadau ar adnoddau. | | | | | | | |
| 4 | **Canran yr apeliadau cynllunio a gafodd eu gwrthod. (PLA/019)** | **66.7%** | 75.0% | **70.4%** | ☹ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | O'r 27 apêl cynllunio a dderbyniwyd yn ystod 2023/24, cafodd 19 eu gwrthod (70.4%), ac mae'r canlyniad yn is na'r targed o 75% ond wedi gwella ar ganlyniad y flwyddyn flaenorol o 66.7%, mae'n fwy na Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Da' sef 66%. | | | | | | | |
| 5 | **Nifer y Diwrnodau ar Gyfartaledd a gymerwyd i Gymryd Camau Gorfodi Cynllunio Cadarnhaol (PLA/022)** | **211 diwrnod** | 180 diwrnod | **306 diwrnod** | ☹ | ▼ | Amherthnasol | | |
| | | Mae nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerir i gymryd camau gorfodi cynllunio cadarnhaol wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod 2023/24, mae hyn yn bennaf oherwydd canolbwyntio ar yr achosion sydd wedi ôl-gronni. Fodd bynnag, wrth i'r achosion hanesyddol hyn gau, maent yn parhau i ogwyddo'r diwrnodau cyfartalog. | | | | | | | |
| **5e - Cyllid** | | | | | | | | | |
| 6 | **Canran y dreth gyngor sy'n ddyledus ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i law'r awdurdod. (CFH/007)** | **97.33%** | 97.50% | **97.01%** | ☹ | ▼ | **95.97%** | **96.73%** | **** |
| | | Mae cyfradd gasglu 2023/24 ychydig yn is na'r targed ac ychydig yn is nag yn 2022/23, ond mae gennym y gyfradd gasglu 5ed uchaf yng Nghymru ac mae'n uwch na chyfartaledd Cymru o 95.97%. Parhaodd y camau adfer trwy gydol y flwyddyn ariannol, ond oherwydd y pandemig diweddar a'r argyfwng costau byw mae aelwydydd incwm isel sydd mewn gwaith yn ei chael hi'n anodd talu. Rydym yn parhau i gymryd ymagwedd ragweithiol tuag at adennill gan sicrhau ein bod yn darparu cefnogaeth a chyngor perthnasol i'r rheiny sy'n mynd i ôl-ddyledion er mwyn sicrhau'r ffordd orau bosibl ymlaen gyda golwg ar drefniadau ad-dalu. Byddwn yn parhau i ddarparu gwybodaeth berthnasol ac yn cyfeirio i sicrhau bod trigolion yn hawlio'r rhyddhad treth gyngor a'r budd-daliadau y mae ganddynt yr hawl i'w cael, a'u cyfeirio at gyngor perthnasol ynghylch dyled a budd-daliadau. | | | | | | | |

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 7 | **Gwariant Alldro Refeniw**<br>*Gwariant alldro yw cyfanswm gwariant awdurdod lleol ar bob gwasanaeth, ynghyd ag ariannu dyledion, ond net unrhyw incwm o werthiannau, ffioedd a thaliadau a ffynonellau eraill nad ydynt yn grantiau.* | £507,994,730<br>2021/22 | Dim targed | £512,250,428<br>2022/23 | Amherthnasol | ▲ | Amherthnasol | | |

Rhennir y Gwariant Alldro Refeniw ar gyfer 2022/23 i'r gwasanaethau canlynol:-

**Addysg - £201,089,573** (gan gynnwys ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion anghenion arbennig, yn cynnwys cyflogau staff, atgyweiriadau a chynnal a chadw, arlwyo ysgol, ac addysg oedolion)

**Gwasanaethau cymdeithasol £150,350,697** (gan gynnwys gwasanaethau plant a theuluoedd yn cynnwys cartrefi plant, gwasanaethau maethu a gwasanaethau mabwysiadu. Cartrefi gofal cartref a nyrsio, gofalu am yr henoed, gofalu am bobl ag anableddau corfforol, meddyliol neu ddysgu, ceiswyr lloches, a chamddefnyddio sylweddau)

**Tai a ariennir gan y Cyngor a budd-dal tai £48,323,752** (gan gynnwys landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, cyngor ar dai, datblygiadau a'r digartref, taliadau budd-dal tai a gweinyddiaeth)

**Gwasanaethau amgylcheddol lleol £29,895,461** (gan gynnwys gwasanaethau mynwent, amlosgi a marw, iechyd amgylcheddol, glanhau strydoedd, casglu a gwaredu gwastraff. Yn cynnwys gwariant Parc Cenedlaethol.)

**Ffyrdd a thrafnidiaeth £16,794,528** (gan gynnwys adeiladu a chynnal a chadw strwythurol ffyrdd cyhoeddus, llwybrau troed, llwybrau beicio a hawliau tramwy cyhoeddus eraill, goleuadau stryd, diogelwch ar y ffyrdd a'r cyhoedd)

**Llyfrgelloedd, diwylliant, treftadaeth, chwaraeon a hamdden £14,265,588** (gan gynnwys amgueddfeydd, orielau a datblygu'r celfyddydau, theatrau ac adloniant cyhoeddus, atgyweiriadau i adeiladau hanesyddol, datblygu chwaraeon a chyfleusterau gan gynnwys canolfannau hamdden a phyllau nofio, twristiaeth a hyrwyddo mannau agored)

**Cynllunio a datblygu economaidd £14,294,642** (gan gynnwys rheoli adeiladu a datblygu, datblygu cymunedol ac economaidd, polisi cynllunio a materion amgylcheddol)

**Budd-dal a gweinyddiaeth y dreth gyngor £4,373,426** (gan gynnwys budd-dal treth gyngor a gweinyddu budd-dal treth gyngor (net grant budd-dal treth gyngor), a chasglu trethi lleol)

**Gwariant refeniw arall £32,862,760** (gan gynnwys diogelu'r arfordir ac amddiffyn rhag llifogydd, cynllunio brys, gweinyddu canolog ac ariannu dyledion).

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| **5f - Caffael** | | | | | | | | | |
| **Mesur adnabod yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd** | | | | | | | | | |
| **5g - Archwilio Mewnol** | | | | | | | | | |
| 8 | **Gwir gyflawniad yn erbyn y Cynllun Archwilio Blynyddol. (6.4.1.3)** | **83%** | 90% | **89%** | ☹ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Cyflawnwyd 89% o'r cynllun Archwilio yn ystod 2023/24, ac mae hyn ychydig yn is na'r targed ond ychydig yn well na'r flwyddyn flaenorol. Bu i salwch tymor hir effeithio ar y tîm archwilio yn ystod y flwyddyn, ac roedd swydd yn wag am rai misoedd oherwydd bod Archwilydd Cynorthwyol ar secondiad. Mae'r swydd wag bellach wedi'i llenwi. | | | | | | | |
| 9 | **% yr ymatebion gan reolwyr a dderbyniwyd o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol drafft. (IA/002)** | **38%** | 80% | **68%** | ☹ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Derbyniwyd 68% o ymatebion rheolwyr o fewn 15 diwrnod gwaith wedi cyhoeddi'r Adroddiad Drafft yn ystod 2023/24, nid yw hyn wedi cyrraedd y targed ond mae'n welliant ar y flwyddyn flaenorol. Gwneir cyswllt pellach â'r rheolwyr i geisio sicrhau bod ymatebion gan reolwyr i adroddiadau yn cael eu derbyn mewn modd amserol, ac o fewn y targed o 15 diwrnod gwaith. | | | | | | | |
| **5h - Rheoli Pobl** | | | | | | | | | |
| 10 | **Nifer y bobl sy'n ymfalchïo mewn gweithio i'r Cyngor (arolwg Ymgysylltu â Gweithwyr Blynyddol) (1.3.4.7)**<br><br>*Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.* | **1.04 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | 1.10 (Sgôr Mynegai Cyfartalog) | **1.06 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)** | ☹ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Cawsom ychydig o dan 1,500 o ymatebion i'n harolwg staff yn ystod 2023/24, ac er bod y canlyniad oddi ar y targed, mae'r canlyniad a'r Sgôr Mynegai Cyfartalog o 1.06 yn dangos bod cytundeb cryf yn gyffredinol fod ein staff yn ymfalchïo mewn gweithio i'r Cyngor, ac mae hynny wedi gwella ychydig ers 2022/23. Dadansoddwyd y sylwadau a ddarparwyd gan staff a pharatowyd a chyflwynwyd ymateb corfforaethol. Cyhoeddwyd y canlyniadau cyffredinol ar ein Mewnrwyd a'u dosbarthu i staff ddechrau Rhagfyr 2023. Lluniwyd adroddiadau penodol i adrannau hefyd, a drafodwyd mewn Cyfarfodydd Adrannol a Chyfarfodydd Uwch-reolwyr. | | | | | | | |

<table>
<tr><th colspan="2" rowspan="2">Diffiniad / Cyfeirnod DP</th><th>2022/23 neu ganlyniad blaenorol</th><th colspan="7">2023/2024 neu fwyaf diweddar</th></tr>
<tr><th>Ein Canlyniad</th><th>Targed</th><th>Canlyniad Gwirioneddol</th><th>Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹</th><th>A wnaethom ni wella ▲ neu▼</th><th>Cyfartaledd Cymru</th><th>Chwartel Gorau Cymru</th><th>Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i ****</th></tr>
<tr><td rowspan="2">11</td><td rowspan="2">Nifer y bobl a fyddai'n argymell y Cyngor fel cyflogwr (arolwg Ymgysylltu â Gweithwyr Blynyddol) (1.3.4.8)<br><br>Sgôr Mynegai Cyfartalog (AIS): Mae sgôr o dan 0 yn dangos anghytundeb cyffredinol; Mae sgôr rhwng 0 ac 1 yn nodi cytundeb cyffredinol, ac mae sgôr rhwng 1 a 2 yn dangos cytundeb cryf cyffredinol.</td><td>1.04 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)</td><td>1.10 (Sgôr Mynegai Cyfartalog</td><td>1.10 (Sgôr Mynegai Cyfartalog)</td><td>☺</td><td>▲</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Cawsom ychydig o dan 1,500 o ymatebion i'n harolwg staff yn ystod 2023/24. Mae'r canlyniad a'r Sgôr Mynegai Cyfartalog o 1.10 yn dangos gwelliant bach ar y flwyddyn flaenorol ac yn parhau i fod yn gytundeb cryf cyffredinol y byddai ein staff yn argymell y Cyngor fel cyflogwr. Dadansoddwyd y sylwadau a ddarparwyd gan staff a pharatowyd a chyflwynwyd ymateb corfforaethol. Cyhoeddwyd y canlyniadau cyffredinol ar ein Mewnrwyd a'u dosbarthu i staff ddechrau Rhagfyr 2023. Lluniwyd adroddiadau penodol i adrannau hefyd, a drafodwyd mewn Cyfarfodydd Adrannol a Chyfarfodydd Uwch-reolwyr.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">12</td><td rowspan="2">% y swyddi uwch-reoli a lenwir gan fenywod. 1.3.2.4</td><td>25.6%</td><td>Dim targed</td><td>29.5%</td><td>Amherthnasol</td><td>▲</td><td colspan="3">Amherthnasol</td></tr>
<tr><td colspan="8">Ym mis Mawrth 2024, cafodd 7 o'r 22 swydd reoli eu llenwi gan fenywod, o'i gymharu â 6 allan o 22 a diwedd Mawrth 2023.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">13</td><td rowspan="2">Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd i absenoldeb salwch fesul gweithiwr. (PAM/001)</td><td>11.6 diwrnod (2022/23</td><td>10.2 diwrnod</td><td>11.1 diwrnod (2022/23)</td><td>☺</td><td>▲</td><td>12.8 diwrnod (2022/23)</td><td>10.4 diwrnod (2022/23)</td><td>***</td></tr>
<tr><td colspan="8">Mae absenoldeb salwch cyfartalog gweithwyr y cyngor wedi gwella yn ystod 2023/24, gan leihau o 11.6 diwrnod i 11.1 diwrnod, ond nid yw yn ôl i lawr i lefelau cyn COVID o tua 10 diwrnod.<br>Mae'r is-adran Rheoli Pobl yn darparu cyngor a chefnogaeth i reolwyr, sy'n gyfrifol am reoli presenoldeb. Mae'r Partneriaid Busnes Adnoddau Dynol yn cefnogi adrannau ac is-adrannau drwy ddarparu'r data a'r dadansoddiad salwch er mwyn i reolwyr gynllunio camau priodol i sicrhau bod achosion yn cael eu rheoli a bod gweithwyr yn cael eu cefnogi, yn unol â'n polisïau a'n canllawiau salwch. Mae'r tueddiadau'n cael eu monitro'n agos. Mae'r tîm Iechyd a Llesiant yn cefnogi drwy fentrau rhagweithiol ac ymyriadau pwrpasol. Mae'r tîm hefyd yn codi ymwybyddiaeth o bynciau iechyd allweddol. Mae gweithwyr Iechyd Galwedigaethol proffesiynol yn darparu barn feddygol ar gyfer gweithwyr sy'n cael eu cyfeirio ac maent yn darparu argymhellion i reolwyr ar addasiadau rhesymol, prognosis a ffitrwydd ar gyfer gwaith. Mae angen i reolwyr ganolbwyntio ar reoli presenoldeb, er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth a darparu'r cymorth angenrheidiol ar gyfer dychwelyd i'r gwaith neu gadw gwaith.</td></tr>
</table>

| | Diffiniad / Cyfeirnod DP | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| 14 | **% y gweithwyr awdurdod lleol sy'n datgan eu bod yn anabl o dan delerau Deddf Cydraddoldeb 2010. 1.3.4.5** | **11.93%** | Dim targed | **12.36%** | Amherthnasol | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Roedd 1,027 o weithwyr y Cyngor wedi datgan eu hunain yn anabl ar ddiwedd Mawrth 2024 o gymharu â 970 ar ddiwedd Mawrth 2023. | | | | | | | |
| **5i - Gwasanaethau Democrataidd** | | | | | | | | | |
| **Mesur adnabod yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd** | | | | | | | | | |
| **5j - Polisi a Pherfformiad** | | | | | | | | | |
| 15 | **% y cwynion a gwblhawyd o fewn terfyn amser statudol (Comp/001)** | **52.7%** | 60.0% | **61.4%** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Mae canlyniad diwedd y flwyddyn o 61.4% wedi rhagori ar y targed ac wedi dangos gwelliant ers y llynedd. Mae hyn yn newyddion cadarnhaol yn enwedig wrth i nifer y cwynion yr ymdriniwyd â hwy yn y flwyddyn gynyddu 37%, o 1,420 yn 2022/23 i 1,958 yn 2023/24. Roedd y cynnydd yn nifer y cwynion yn ymwneud yn bennaf â newidiadau i'r drefn casglu sbwriel a'r oedi wrth wneud atgyweirio mewn Tai. | | | | | | | |
| **5k - Gwasanaethau Etholiadol a Chofrestru Sifil** | | | | | | | | | |
| **Mesur adnabod yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd** | | | | | | | | | |
| **5l - Ystadau a Rheoli Asedau** | | | | | | | | | |
| 16 | **% y perfformiad yn erbyn y targed i gynhyrchu derbyniadau cyfalaf i gefnogi'r rhaglen gyfalaf (2.1.2.12)** | **36.07%** | 100.00% | **142.20%** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Rhagorwyd ar y targed ar gyfer 2023/2024, yn bennaf oherwydd yr hyn a gafwyd am Barc Dewi Sant. | | | | | | | |

| Diffiniad / Cyfeirnod DP | | 2022/23 neu ganlyniad blaenorol | 2023/2024 neu fwyaf diweddar | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Ein Canlyniad | Targed | Canlyniad Gwirioneddol | Targed wedi'i gyrraedd ☺neu☹ | A wnaethom ni wella ▲ neu ▼ | Cyfartaledd Cymru | Chwartel Gorau Cymru | Sut rydym yn cymharu yng Nghymru * i **** |
| **5m - Rheoli Risg** | | | | | | | | | |
| 17 | **% Ymateb i lythyrau hawlio - cyflwyno llythyr cydnabod i'r hawlydd / cynrychiolydd cyfreithiol yr hawlydd, ac atgyfeirio'r hawliad i'r Yswiriwr priodol o fewn 6 diwrnod gwaith wedi i'r Adran Rheoli Risg ei dderbyn. (6.4.2.3.)** | **93%** | 95% | **94%** | ☹ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Ar 94%, dim ond ychydig oddi ar y targed ar gyfer 2023/24 yw hyn, ond mae'n dangos gwelliant ar ganlyniad y flwyddyn flaenorol, sef 93%. Cafwyd gostyngiad bach mewn perfformiad yn ystod mis Tachwedd 2023 tra bo amser yn cael ei dreulio'n hyfforddi aelod newydd o staff. | | | | | | | |
| 18 | **% y digwyddiadau cerbydau modur y rhoddir gwybod amdanynt i Rheoli Risg o fewn 5 diwrnod gwaith (RM1)** | **49%** | 40% | **53%** | ☺ | ▲ | Amherthnasol | | |
| | | Rhoddwyd gwybod i Rheoli Risg am 53% o ddigwyddiadau cerbydau'r fflyd o fewn 5 diwrnod gwaith yn ystod 2023/24. Mae hwn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol ond mae rhagor o le i wella. | | | | | | | |
| **5n - Cefnogi Busnesau** | | | | | | | | | |
| **Nid oes dim mesurau o fewn y thema hon ar hyn o bryd.** | | | | | | | | | |